**Rhif:** WG33629

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Taro'r cydbwysedd iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg

Dyddiad cyhoeddi: 24 Ionawr 2018

© Hawlfraint y Goron 2018 ISBN digidol 978 1 78903 042 6

# Taro’r cydbwysedd iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Cyrff cyhoeddus yng Nghymru; cyrff y trydydd sector yng Nghymru; cwmnïau’r sector preifat yng Nghymru; sefydliadau addysgol yng Nghymru; sefydliadau sy’n gweithio i hybu a hwyluso defnydd o’r Gymraeg; a phartïon eraill â diddordeb. |
| **Trosolwg** | Mae’r ddogfen hon yn crynhoi’r ymatebion a dderbyniwyd i’r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn *Taro’r cydbwysedd iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg* gan Lywodraeth Cymru. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 9 Awst a 31 Hydref 2017. |
| **Camau i’w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Tîm Bil y Gymraeg<br>Is-adran y Gymraeg<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>Ffôn: 0300 0604400<br>e-bost:<br>UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru |
| **Copïau ychwanegol** | Mae’r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgynghoriadau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | *Taro’r cydbwysedd iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg* (2017)<br><br>*Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (2017)<br><br>*Paratoi ar gyfer Bil y Gymraeg – Galwad am dystiolaeth: crynodeb o’r ymatebion* (2017) |

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** **2**

**2. Dulliau ymgysylltu** **3**

**3. Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig** **5**

**4. Casgliad a'r camau nesaf** **50**

**Atodiad 1: Crynodeb o'r ymatebion i'r grŵp ffocws a gynhaliwyd gyda phlant a phobl ifanc** **51**

**Atodiad 2: Crynodeb o'r ymatebion i'r grŵp ffocws a gynhaliwyd gyda phobl ag anableddau dysgu** **54**

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir

1.1 Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth uchelgeisiol yn amlinellu sut y bydd y llywodraeth yn gweithredu er mwyn cyrraedd ei nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Ymhlith pwyntiau gweithredu'r strategaeth, ceir ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n cefnogi'r Gymraeg er mwyn sicrhau ei bod yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer hybu a hwyluso defnyddio'r iaith.

1.2 I weithredu'r ymrwymiad hwn a'r ymrwymiad yn *Symud Cymru Ymlaen*[1] i adolygu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur'), cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y Papur Gwyn *Taro'r cydbwysedd iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg* ar faes Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn ar 9 Awst. Roedd yr ymgynghoriad ar agor tan 31 Hydref.

1.3 Roedd 5 rhan i'r Papur Gwyn, sef:

- Rhan 1: Hybu'r Gymraeg;
- Rhan 2: Llywodraethiant ac atebolrwydd;
- Rhan 3: Safonau'r Gymraeg;
- Rhan 4: Cwmpas y cyrff sy'n ddarostyngedig i ddeddfwriaeth y Gymraeg;
- Rhan 5: Asesu effaith ein cynigion.

1.4 Prif gynigion y Papur Gwyn oedd:

- Dylid sefydlu Comisiwn y Gymraeg i arwain y gwaith o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg ac i fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg;
- Dylid parhau â Safonau'r Gymraeg fel y dull gorau o sicrhau hawliau pobl i dderbyn gwasanaethau Cymraeg ond y dylid diwygio'r gyfundrefn;
- Dylid diddymu'r cyfyngiadau yn y Mesur i alluogi gosod Safonau'r Gymraeg ar unrhyw gorff o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad').

[1] http://gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf

# 2. Dulliau ymgysylltu

2.1 Ar ddechrau'r Papur Gwyn, nododd cyn-Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Alun Davies AC, ei ddyhead am drafodaeth egnïol ar y cynigion. Dros gyfnod yr ymgynghoriad, ymgysylltodd Llywodraeth Cymru ag ystod eang o randdeiliaid mewn ymgais i sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn cael cyfle i fynegi eu barn ar gynigion y llywodraeth. Ymhelaethir ar y dulliau ymgysylltu isod.

2.2 I gyd-fynd â'r Papur Gwyn, gofynnwyd 49 o gwestiynau i bobl ymateb iddynt yn seiliedig ar gynigion Llywodraeth Cymru. Rydym wedi creu dadansoddiad meintiol o'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau. Yn ogystal, rydym wedi dadansoddi'r ymatebion i roi trosolwg o'r prif themâu a gododd. Ceir crynodeb o'r dadansoddiad i'r ymatebion yn rhan 3 yr adroddiad hwn.

2.3 Derbyniwyd ymatebion gan ystod eang o unigolion, sefydliadau a chyrff. Ceir rhestr o'r categorïau o ymatebwyr a nifer yr ymatebion a dderbyniwyd o bob un yn Nhabl 1.

## Digwyddiadau ymgynghori

2.4 Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau gan Lywodraeth Cymru i drafod cynigion y Papur Gwyn. Arweiniodd y cyn-Weinidog y digwyddiadau yng Nghyffordd Llandudno, Aberystwyth, Abertawe, Merthyr Tudful a Chaerdydd. Cynhaliwyd y digwyddiadau ar ffurf sesiwn holi ac ateb rhwng y Gweinidog a'r mynychwyr, tri gweithdy ar wahân gyda thrafodaeth bwrdd crwn i'r mynychwyr a sesiwn i fwydo nôl. Mynychodd 146 unigolyn y digwyddiadau hyn.

2.5 Trefnodd Llywodraeth Cymru ddau ddigwyddiad arall gyda chyrff sydd wedi dod i gysylltiad â chyfundrefn Safonau'r Gymraeg. Cynhaliwyd y digwyddiadau yng Nghyffordd Llandudno ac Abertawe. Diben y digwyddiadau oedd trafod ymarferoldeb gweithredu cynigion y Papur Gwyn. Mynychodd 66 unigolyn y digwyddiadau hyn.

## Cyfryngau cymdeithasol

2.6 Ar 3 Hydref, cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu ar-lein gyda chyn-Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes. Rhoddodd y sesiwn gyfle i aelodau'r cyhoedd ofyn cwestiynau yn fyw i'r Gweinidog dros y cyfryngau cymdeithasol. Gwyliwyd y llif dros 600 o weithiau ac mae'n parhau i fod ar gael i'w wylio ar gyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru[2].

## Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

2.7 Yn unol â'r ymrwymiad yn yr Asesiad Effaith ar Hawliau Plant a gwblhawyd o ganlyniad i ofynion Mesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, rhoddwyd cyfle i blant a phobl ifanc fynegi eu barn. Yn ogystal ag ymgysylltu â rhwydweithiau sy'n cefnogi hawliau plant drwy wefan Hawliau Plant Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd dau grŵp ffocws penodol i gasglu barn plant a phobl ifanc mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru. Ceir crynodeb o'r ymatebion a gafwyd yn y sesiynau hyn yn atodiad 1 yr adroddiad hwn.

[2] https://www.pscp.tv/w/1yNGamZpYBvGj

## Ymgysylltu â grwpiau bregus

2.8 Mewn partneriaeth â Phobol yn Gyntaf Caerfyrddin, cynhaliwyd dau grŵp ffocws gyda phobl ag anableddau dysgu i egluro cynigion Llywodraeth Cymru a gofyn cwestiynau penodol arnynt. Ceir crynodeb o'r ymatebion a gafwyd drwy'r sesiynau hyn yn atodiad 2 yr adroddiad hwn.

## 3. Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig

3.1 Rhannwyd y 504 o ymatebion ysgrifenedig a gafwyd i gategorïau gwahanol er mwyn adnabod tueddiadau sectorol. Rhannwyd yr ymatebion i'r categorïau canlynol:

**Tabl 1**

| **Categori** | **Nifer o ymatebion a dderbyniwyd** |
|---|---|
| Aelodau'r cyhoedd | 86 |
| Awdurdodau lleol | 19 |
| Addysg | 18 |
| Iechyd a gofal | 25 |
| Cyrff a enwir yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2, 4 a 5 | 23 |
| Cymdeithasau tai | 8 |
| Mudiadau, comisiynwyr iaith ac academyddion | 13 |
| Y sector preifat | 8 |
| Cyrff sy'n derbyn arian gan Lywodraeth Cymru i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg | 17 |
| Eraill | 12 |

3.2 Er mwyn hwyluso dadansoddi'r ymatebion yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg yn benodol, crëwyd categori ychwanegol a elwir yn 'gyrff sydd wedi dod i gysylltiad â chyfundrefn Safonau'r Gymraeg'. Golyga hyn gyrff sydd un ai'n:

- gweithredu Safonau'r Gymraeg; neu
- wedi derbyn hysbysiad cydymffurfio sydd eto i ddod yn weithredol; neu
- wedi'u henwi mewn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Drafft sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru; neu
- wedi bod yn rhan o Ymchwiliad Safonau Comisiynydd y Gymraeg neu'n rhan o sector y cynhaliwyd ymchwiliad iddo.

3.3 Yn ein dadansoddiad, rydym wedi cynnwys data ar yr ymatebion i'r cwestiynau caeëdig. Nodwn nad oedd rheidrwydd i ymatebwyr ymateb i bob un cwestiwn. Penderfynodd rhai ymatebwyr i hepgor cwestiynau ar rannau penodol o'r Papur Gwyn nad oeddynt yn eu hystyried yn berthnasol i'w gwaith nhw. Yn ogystal, rydym wedi amlygu'r prif themâu sy'n codi o'r ymatebion.

3.4 O fewn y dadansoddiad, ceir cyfeiriadau mewn nifer o fannau at y gwahaniaeth barn rhwng categorïau gwahanol o ymatebwyr. Ymysg aelodau'r cyhoedd a ymatebodd, roedd cyfran ohonynt yn gyffredinol yn erbyn gwariant Llywodraeth Cymru ar gefnogi'r Gymraeg ac felly o reidrwydd yn anghytuno â nifer o'n cynigion.

3.5 Wrth ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, cydnabuwyd nifer o ymatebion a oedd yn deillio o dair ymgyrch unigryw:

- Derbyniwyd neges awtomatig gan 218 unigolyn a anfonwyd yn uniongyrchol o wefan Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Ceir copi o'r neges yn y ddogfen sy'n cynnwys holl ymatebion yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru;
- Derbyniwyd 15 o ymatebion yn uniongyrchol gan unigolion gwahanol fel rhan o ymgyrch i gefnogi safbwyntiau Dyfodol i'r Iaith ar y cynigion yn y Papur Gwyn;
- Derbyniwyd 45 o ymatebion ar ffurf copi caled o'r ffurflen ymateb ar gyfer ymgyrch nad ydym yn ymwybodol o'i tharddiad. Ystyriwyd yr ymatebion fel rhan o ymgyrch gan fod cynnwys y ffurflenni ymateb hyn yn union yr un fath (ac eithrio ambell fân ychwanegiad mewn rhai ymatebion).

3.6 At ddibenion y dadansoddiad meintiol, rydym wedi cyfri'r ymatebion sydd wedi dod i law trwy'r ymgyrchoedd hyn unwaith yn unig.


3.7 Daeth y mwyafrif helaeth o ymatebion a dderbyniwyd gan ymatebwyr a oedd wedi'u lleoli yng Nghymru. Derbyniwyd 22 ymateb a oedd wedi'u cyflwyno gan ymatebwyr a oedd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru. Roedd yr ymatebwyr hyn yn cynnwys rhai a oedd yn darparu gwasanaethau yng Nghymru. Yn gyffredinol, roedd y sylwadau a wnaed gan yr ymatebwyr hyn debyg i'r rhai a wnaed gan ymatebwyr a oedd wedi'u lleoli yng Nghymru.

3.8 Noder y defnyddir y term 'mwyafrif' yn yr adroddiad hwn i gyfeirio at ymatebion â thros 50% o'r ymatebwyr yn mynegi barn un ffordd neu'r llall. Ble nad oedd mwyafrif o ymatebwyr wedi mynegi barn un ffordd neu'r llall, defnyddir y term 'rhan fwyaf'. Golyga hynny y farn a oedd fwyaf cyffredin mewn ymatebion i gwestiwn penodol heb o reidrwydd olygu bod mwyafrif o'r ymatebwyr wedi ateb y ffordd honno.

## Rhan 1: Hybu'r Gymraeg

**Cwestiwn 1 – Ym mharagraffau 49–54, rydym wedi amlinellu'r rôl yr ydym yn cynnig y dylai Llywodraeth Cymru ei chwarae i hybu'r Gymraeg, h.y. swyddogaethau'r Llywodraeth i hybu'r Gymraeg. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig?**

**Ffigur 1: Ymatebion i Gwestiwn 1**





3.9 Roedd mwyafrif yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig.

3.10 Roedd cefnogaeth gref ymhlith cyfran sylweddol o'r ymatebion i'r rôl a amlinellwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru i hybu'r Gymraeg fel y'i disgrifiwyd yn y Papur Gwyn, wrth iddynt gydnabod manteision rôl y llywodraeth o ran creu strategaeth genedlaethol. Roedd 10 o'r 15 awdurdod lleol a ddarparodd ymatebion yn cytuno â'r cynnig, gyda phump yn nodi nad oeddynt yn cytuno nac yn anghytuno. Y cyhoedd oedd y grŵp o ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn fwyaf. Anghytunodd 39 o'r ymatebwyr â'r gosodiad, tra bod 22 yn cytuno a naw ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

3.11 Gwnaeth nifer o ymatebwyr gytuno â rôl arfaethedig Llywodraeth Cymru gan gydnabod statws a dylanwad y llywodraeth. Cyfeiriodd nifer o ymatebion yn benodol at bwysigrwydd datblygu'r ddarpariaeth o dechnoleg Cymraeg. Ychwanegodd rhai ymatebwyr feysydd yr oeddynt yn ystyried y dylai gael eu hychwanegu at yr hyn a nodwyd ym mharagraffau 49-54 y Papur Gwyn. Ymysg y prif feysydd a gynigiwyd oedd: cynllunio economaidd, chynllunio gwlad a thref, a'r Gymraeg mewn chwaraeon a'r celfyddydau. Yn ogystal, nododd rhai Mentrau Iaith y dylid ychwanegu datblygu cymunedol at y rhestr o feysydd y dylai'r llywodraeth arwain arnynt.

**Cwestiwn 2 – Yn Nhabl 1, rydym wedi amlinellu'r adnoddau mewn perthynas â'r swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg yr ydym o'r farn y dylent fod ar gael i unrhyw gorff neu gyrff sy'n helpu yn y gwaith o hybu'r Gymraeg a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig?**

**Ffigur 2: Ymatebion i  Gwestiwn 2**





3.12 Roedd yr ymatebion i'r cynnig hwn yn rhanedig.  O'r rhai a fynegodd farn, roedd y rhan fwyaf yn cytuno â'r cynnig.

3.13 Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn ar draws categorïau'r ymatebwyr. Cytunodd saith awdurdod lleol â'r ffigyrau yn y tabl, gyda dau arall yn anghytuno a phump ohonynt ddim yn cytuno nac yn anghytuno. O'r ymatebwyr a oedd yn cynrychioli'r sector iechyd a gofal, cytunodd bump ymatebwr â'r cynnig, gyda chwech yn anghytuno a phedwar ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Ymysg aelodau'r cyhoedd a ymatebodd, cytunodd 20 â'r cynnig, tra bod 37 yn anghytuno ac 11 ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

3.14 Yn nhyb rhai o'r ymatebwyr, roedd y tabl a roddwyd yn y Papur Gwyn yn anghyflawn gan nad oedd y tabl yn cynnwys symiau perthnasol megis y gefnogaeth ariannol a ddyrennir i greu gweithlu Cyfnod Sylfaen sydd â sgiliau Cymraeg. Cafwyd cymariaethau gan rai ymatebwyr rhwng y symiau yn y tabl a'r gyllideb a ddyrannwyd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gynt. Yn ogystal, nododd rhai ymatebion nad oedd y gyllideb i'w gweld yn ddigonol.

**Cwestiwn 3 – A ydych chi'n cytuno â'r opsiwn a ffefrir gennym (Opsiwn 4), sef un corff i fod yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg ac am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau?**

**Ffigur 3: Ymatebion i Gwestiwn 3**




3.15 Roedd barn yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn rhanedig. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a fynegodd farn yn cytuno â'r opsiwn o sefydlu un corff i fod yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg ac am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau.

3.16 Roedd barn ranedig ar draws ystod yr ymatebion. Er bod rhai categorïau o ymatebwyr yn fwy tebygol o gytuno nac anghytuno, roedd categorïau eraill yn fwy tebygol o anghytuno na chytuno. Cytunodd 11 awdurdod lleol â'r opsiwn hwn, gwnaeth tri ohonynt anghytuno tra bod pump ddim yn cytuno nac yn anghytuno. O blith y cyrff a ariennir gan Lywodraeth Cymru i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, cytunodd ddau ohonynt â'r cynnig, gyda 10 yn anghytuno a dau ddim yn cytuno nac yn anghytuno. O'r cyrff sydd wedi dod i gysylltiad â chyfundrefn Safonau'r Gymraeg (gan gynnwys yr awdurdodau lleol), cytunodd 40 ohonynt â'r cynnig, gwnaeth 11 anghytuno ac nid oedd 20 ohonynt yn cytuno nac yn anghytuno.


3.17 Ymhlith rhai ymatebwyr, megis Comisiynydd y Gymraeg, Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg a rhai o aelodau Asiantaeth Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith, roedd cefnogaeth i gyfuno'r gwaith o hybu a rheoleiddio'r Gymraeg. Yn nhyb rhai ymatebwyr, megis Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, roedd y swyddogaethau'n ategu ei gilydd, ac roedd cydnabyddiaeth ymysg nifer o ymatebwyr y byddai hyn yn darparu'r strwythur mwyaf cost effeithiol. Fodd bynnag, mewn nifer o ymatebion, megis ymateb Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, codwyd pryder y byddai cyfuno swyddogaethau hybu a rheoleiddio yn arwain at wrthdaro buddiannau.

3.18 Trafodwyd y cymorth y byddai ei angen ar gyrff i fodloni gofynion Safonau'r Gymraeg. Cwestiynodd rhai ymatebwyr p'un a fyddai corff yn gallu mynd ati'n llwyddiannus i hybu, annog a helpu corff ar yr un llaw, a hefyd arfer swyddogaethau ymchwilio a gorfodi ar y llaw arall.

3.19 I gefnogi eu safbwyntiau, cafwyd enghreifftiau gan rai ymatebwyr o sectorau lle nad yw'r swyddogaethau rheoleiddio a hybu yn cael eu harfer gan un corff, er enghraifft: Cymdeithas y Gyfraith ('Law Society') a'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr ('Solicitor Regulation Authority'). I'r gwrthwyneb, cafwyd enghreifftiau gan ymatebwyr eraill o gyrff sy'n arfer swyddogaethau rheoleiddio a hybu, megis Gofal Cymdeithasol Cymru.

**Cwestiwn 4 – Rydym wedi seilio ein dewis, sef un corff, ar sail eglurder, cydnawsedd a gwerth am arian. A ydych chi'n cytuno â'n sail resymegol?**

**Ffigur 4: Ymatebion i Gwestiwn 4**




3.20 Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr a ddarparodd ymatebion i'r cwestiwn hwn â'r dadansoddiad a roddwyd yn y Papur Gwyn i gefnogi cynnig Llywodraeth Cymru i sefydlu un corff. Cytunodd mwyafrif yr awdurdodau lleol a'r cyrff sy'n cynrychioli'r sector addysg â'r sail resymegol a roddwyd. Ymysg aelodau'r cyhoedd a ymatebodd, cytunodd 30 ohonynt o gymharu â 28 a oedd yn anghytuno a 12 nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno.

3.21 Ymysg y rhai a oedd yn anghytuno, roedd rhai o'r farn nad oedd y sail resymegol yn y Papur Gwyn o ran gwerth am arian yn adlewyrchu'r costau posibl all fod yn gysylltiedig â sefydlu corff newydd. Yn ogystal, roedd rhai o'r farn nad oedd cael dau gorff ar wahân, gydag un ohonynt yn hybu'r Gymraeg a'r llall yn rheoleiddio gwasanaethau Cymraeg, o reidrwydd yn creu dryswch. Crybwyllodd rhai ymatebwyr ystyriaethau eraill i'w hystyried megis cynaladwyedd a'r effaith bosibl ar fomentwm.

**Cwestiwn 5 – Pa faterion perthnasol eraill y dylem eu hystyried wrth wneud ein cynnig terfynol ynghylch pa gorff neu gyrff ddylai hybu'r Gymraeg a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau?**

3.22 Mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, daeth argymhellion i law gan ymatebwyr yn crybwyll materion posibl i'w hystyried wrth i Lywodraeth Cymru derfynu ei chynigion. Ymysg y prif argymhellion, trafodwyd pwysigrwydd sicrhau bod y corff arfaethedig yn meddu ar y sgiliau a'r profiad i arfer ei swyddogaethau ynghyd ag annibyniaeth i arfer ei

swyddogaethau, ac hefyd pwysigrwydd sicrhau rhaniad corfforaethol rhwng y swyddogaethau hybu a rheoleiddio er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau. Nododd Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru fod hyder y cyhoedd yn y trefniadau a sut i gynnal yr hyder hwnnw drwy annibyniaeth, tryloywder ac atebolrwydd digonol yn ffactorau i'w hystyried wrth sefydlu'r corff arfaethedig.

**Cwestiwn 6 – A oes gennych unrhyw sylwadau pellach ar Ran 1 y Papur Gwyn?**

3.23 O'r ymatebion i'r cwestiwn hwn, nodwyd sylwadau sydd wedi'u hadrodd mewn rhannau arall o'r adroddiad hwn megis pryderon am golli ffigwr cyhoeddus fel eiriolwr dros y Gymraeg, pryder ynghylch oedi posibl wrth sefydlu cyfundrefn newydd, a'r angen i ystyried cynllunio gwlad a thref wrth derfynu'r cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg. Yn ogystal, cafwyd ymatebion gan 10 aelod o'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn a oedd yn gyffredinol yn anghymeradwyo cynigion i gefnogi'r Gymraeg. Cafwyd trafodaeth mewn rhai ymatebion o'r angen am eglurder ynghylch pwy yn union fyddai'n gyfrifol am ba swyddogaethau wrth hybu hwyluso defnydd o'r Gymraeg a rheoleiddio gwasanaethau Cymraeg. Trafododd rhai yn ogystal bwysigrwydd casglu data. Roedd un ymatebydd o'r farn y dylid casglu data ar waelodlin meintiol defnydd y Gymraeg ac ymchwilio i'r hyn sy'n ysgogi dewisiadau ieithyddol fel sail i gynnal prosiectau pwrpasol.

## Rhan 2: Llywodraethiant ac atebolrwydd

**Cwestiwn 7 – Ym mharagraffau 93–95, rydym wedi nodi rhai gofynion cyffredinol yn ymwneud â threfniadau llywodraethu ac atebolrwydd y corff. Beth yw eich barn chi am y gofynion cyffredinol hyn, ac a oes yna fesurau monitro a ffrwyno eraill a ddylai fod yn weithredol ar y corff arfaethedig?**


3.24 Roedd cyfran sylweddol o'r ymatebion yn cytuno â'r hyn a nodwyd yn y Papur Gwyn fel gofynion cyffredinol ar y corff arfaethedig. Nododd sawl ymateb fod y gofynion yn debyg iawn i'r hyn sy'n ofynnol i gyrff yn gyffredinol yn y sector cyhoeddus. Yn ogystal, cafwyd rhai cynigion gan ymatebwyr am ofynion ychwanegol y dylid eu hystyried ar gyfer y corff. Er enghraifft, cynigodd Archwilydd Cyffredinol Cymru fesurau a ddylai fod yn berthnasol i'r corff yn ymwneud ag archwilio a phrosesau ariannol.

3.25 Amlygodd yr ymatebion pa mor bwysig ydyw bod y corff yn gweithio gyda phobl ar draws sectorau ac ar lawr gwlad wrth arfer ei swyddogaethau a gwneud penderfyniadau. Yn hynny o beth, roedd cefnogaeth ymhlith nifer o'r ymatebion i'r pwyslais yn y Papur Gwyn ar sicrhau bod y corff yn ennyn ymddiriedaeth a hyder. Cynigodd rhai ohonynt y dylai dyletswyddau ymgynghori fod yn berthnasol i'r corff wrth arfer rhai swyddogaethau.

3.26 Thema a oedd yn gyffredin yn nifer o'r ymatebion oedd pwysigrwydd sicrhau bod y corff arfaethedig yn annibynnol o'r llywodraeth, a hynny'n enwedig o ystyried rôl y corff o ran monitro cydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru â Safonau'r Gymraeg.

**Cwestiwn 8 – A ydych chi'n cytuno â'r opsiwn a ffefrir gennym (Opsiwn 3), sef i sefydlu Comisiwn y Gymraeg i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â'r Safonau?**

**Ffigur 5: Ymatebion i Gwestiwn 8**



3.27 O’r rhai a fynegodd farn, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno â chynnig Llywodraeth Cymru i sefydlu Comisiwn y Gymraeg i hybu a hwyluso defnyddio’r Gymraeg a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â’r Safonau.

3.28 Yn gyffredinol, roedd cyrff o dan ddyletswyddau cyfreithiol yn ymwneud â’r Gymraeg yn fwy tebygol o gytuno â’r cynnig nag aelodau’r cyhoedd a rhai mudiadau. Cefnogwyd y cynnig gan y rhan helaeth o awdurdodau lleol a byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd. O’r 18 awdurdod lleol a ymatebodd i’r cwestiwn hwn, cytunodd 12 ohonynt â’r cynnig a chytunodd bob un bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd â’r cynnig heblaw am un. Yn ogystal, cafwyd cynigion gan rai ymatebwyr o feysydd gwaith posibl ar gyfer y Comisiwn arfaethedig. Er enghraifft, roedd nifer yn gweld rôl i’r Comisiwn o ran rhannu arfer da, cynnal rhwydweithiau o gyrff, a chydlynu hyfforddiant i’w helpu i gydymffurfio â’r Safonau. Yn ogystal, roedd rhai yn ystyried y byddai modd rhoi rôl i’r Comisiwn arfaethedig mewn achosion cynllunio ac hefyd wrth ystyried Cynlluniau Datblygu Lleol.

3.29 Gwnaeth nifer o’r ymatebion gydnabod rhinweddau cadw Comisiynydd unigol. Cytunodd pump corff o’r sector iechyd a gofal â’r cynnig i sefydlu Comisiwn y Gymraeg er iddynt nodi eu bod yn gweld manteision cadw Comisiynydd unigol, gyda rhai yn holi p’un a fyddai modd cyfuno opsiwn 2 y Papur Gwyn (Comisiynydd y Gymraeg gyda Bwrdd Llywodraethu) ag opsiwn 3 (Comisiwn y Gymraeg).

3.30 O’r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â’r opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru, sef sefydlu Comisiwn y Gymraeg, roedd 23 o blaid opsiwn a fyddai’n cynnwys Comisiynydd unigol hynny yw, unai’r sefyllfa bresennol (opsiwn 1 y Papur Gwyn) neu Gomisiynydd y Gymraeg gyda Bwrdd Llywodraethu (opsiwn 2) fel y’u hamlinellwyd yn y Papur Gwyn. O’r 23 hwn, roedd naw ymatebydd o’r farn y dylid dewis opsiwn 2, gan gynnwys Comisiynydd presennol y Gymraeg. Yn nhyb rhai o’r ymatebwyr, roedd yr opsiwn hwn yn cynnig newid llai pellgyrhaeddol na sefydlu Comisiwn y Gymraeg ac yn fwy deniadol am ei fod yn newid graddol.


**Cwestiwn 9 – Beth yw eich barn chi am y dadansoddiad rydym wedi'i ddarparu sy'n cefnogi ein dewis ni, sef Opsiwn 3? A oes unrhyw ystyriaethau eraill y dylem eu hystyried wrth wneud unrhyw gynnig terfynol?**

3.31 Roedd ystod eang o ymatebwyr yn cefnogi’r dadansoddiad hwn. Thema a gododd mewn nifer o ymatebion oedd pryderon y byddai sefydlu Comisiwn y Gymraeg yn lle Comisiynydd y Gymraeg yn arwain at golli ffigwr cyhoeddus i eirioli dros y Gymraeg. Yn ogystal, gwnaed cymariaethau rhwng Comisiwn arfaethedig y Gymraeg a’r Bwrdd yr Iaith Gymraeg gynt.

3.32 Trafododd nifer o ymatebwyr y rhesymeg dros sefydlu Comisiwn y Gymraeg a dileu Comisiynydd y Gymraeg pan fo Comisiynwyr unigol yn bodoli mewn meysydd polisi eraill megis Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Yn ogystal, roedd rhai ymatebwyr o’r farn ei bod yn rhy gynnar i farnu effeithlonrwydd y gyfundrefn bresennol mor fuan ar ôl ei sefydlu.

**Cwestiwn 10 – A ydych chi'n credu bod Opsiwn 3 yn diogelu annibyniaeth y Comisiwn arfaethedig yn ddigonol yng nghyd-destun arfer swyddogaethau ar gyfer monitro a gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â'r Safonau?**

**Ffigur 6: Ymatebion i Gwestiwn 10**





3.33 Yn gyffredinol, ar draws pob sector a gynrychiolwyd gan ymatebwyr, roedd ansicrwydd o ran addasrwydd y cynigion yn y Papur Gwyn o ran sicrhau annibyniaeth y Comisiwn arfaethedig. Yr unig sector a gytunodd fod y cynigion yn ddigonol i sicrhau annibyniaeth y Comisiwn arfaethedig oedd y sector cymdeithasau tai. O’r chwe chymdeithas a atebodd y cwestiwn hwn, cytunodd bedwar ohonynt fod y cynnig yn diogelu annibyniaeth y Comisiwn arfaethedig yn ddigonol.

3.34 Cafwyd argymhellion gan rai y dylai’r corff newydd fod yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn hytrach na Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, trafodwyd priodoldeb rôl Llywodraeth Cymru wrth benodi aelodau’r Comisiwn a chytuno cynllun strategol y corff, a’r effaith bosibl y gallai hyn ei chael ar annibyniaeth y corff.

**Cwestiwn 11 – A oes unrhyw faterion ychwanegol i'r rhai a restrir ym mharagraffau 121–122 y dylem eu hystyried wrth ystyried trefniadau i sefydlu'r Comisiwn arfaethedig?**


**Ffigur 7: Ymatebion i Gwestiwn 11**




3.35 Yn nifer o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn, trafodwyd aelodaeth y Comisiwn arfaethedig. Roedd yn glir bod rhai yn ystyried bod ystod sgiliau, arbenigedd a phrofiadau aelodau'r Comisiwn yn ystyriaeth bwysig pe bai Comisiwn y Gymraeg yn cael ei sefydlu. Yn ogystal, cafwyd sylwadau gan eraill ar y prosesau'n ymwneud â newid o'r strwythur presennol i strwythur newydd er mwyn sicrhau nad yw momentwm yn cael ei golli a sicrhau eglurder.

**Cwestiwn 12 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i symud y gofyniad ar Lywodraeth Cymru i lunio strategaeth ar gyfer y Gymraeg o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i'r Bil y Gymraeg newydd?**


**Ffigur 8: Ymatebion i Gwestiwn 12**




3.36 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn gefnogol i gynnig Llywodraeth Cymru i symud y gofyniad ar Lywodraeth Cymru i lunio strategaeth ar gyfer y Gymraeg o Ddeddf Cymru 2006 i'r Bil y Gymraeg newydd. Roedd peth ansicrwydd ymysg y byrddau a'r ymddiriedolaethau iechyd yng Nghymru a ymatebodd, gyda chwech yn cytuno â'r cynnig, ond pump yn nodi nad oeddynt yn cytuno nac yn anghytuno. Yn gyffredinol, cefnogwyd y cynnig gan rai ar y sail y byddai'n creu eglurder. Fodd bynnag, cyfeiriodd rhai at bwysigrwydd Deddf Cymru 2006 fel deddf o arwyddocâd cyfansoddiadol. Ar y sail hon, anghytunodd Cyngor Sir Ceredigion â'r cynnig gan fod cadw tarddiad y ddyletswydd yn Neddf Cymru 2006 yn rhoi statws i'r gwaith. Cynigodd leiafrif y dylid cynnwys y gofyniad yn Neddf Cymru 2006 yn ogystal â Bil y Gymraeg.

**Cwestiwn 13 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai Llywodraeth Cymru adrodd i'r Cynulliad ar strategaeth y Gymraeg bob pum mlynedd yn lle bob blwyddyn?**

**Ffigur 9: Ymatebion i Gwestiwn 13**





3.37 Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr yn anghytuno â chynnig Llywodraeth Cymru i newid y ddyletswydd bresennol i adrodd yn flynyddol ar gynnydd i bob pum blynedd.

3.38 O'r 81 o ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig, roedd 33 yn aelodau'r cyhoedd, wyth o gyrff o'r sector addysg a 13 o gyrff o'r sector iechyd a gofal. Roedd y farn ymysg yr awdurdodau lleol a ymatebodd yn fwy rhanedig. Cytunodd saith â'r cynnig tra bod saith yn anghytuno. Roedd nifer o ymatebion yn cydnabod y rhesymeg a oedd yn sail i gynnig Llywodraeth Cymru i newid y gofyniad i adrodd yn flynyddol, sef yr anhawster o adrodd yn flynyddol ar gynnydd wrth weithredu strategaeth hirdymor. Fodd bynnag, roedd sawl ymatebydd a anghytunodd â'r cynnig yn credu bod pum mlynedd yn rhy hir rhwng adroddiadau ac yn anaddas i ddangos problemau posibl wrth weithredu'r strategaeth. Ymysg yr ymatebwyr a gytunodd, nodwyd y byddai'r newid arfaethedig yn arwain at lai o fiwrocratiaeth.

3.39 Cytunodd sawl ymatebydd ar y sail y byddai Llywodraeth Cymru'n gosod adroddiad blynyddol y Comisiwn arfaethedig gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn flynyddol. Nodwyd hefyd na fyddai adrodd bob pum mlynedd yn ddigonol o ystyried sawl adroddiad fyddai'n cael eu cyhoeddi cyn 2050. Cynigodd rhai ymatebion y dylid ystyried newid y gofyniad i ddwy neu dair blynedd.

**Cwestiwn 14 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun yn nodi sut y bydd yn gweithredu'r strategaeth bob pum mlynedd yn lle bob blwyddyn?**

**Ffigur 10: Ymatebion i Gwestiwn 14**





3.40 Roedd barn ymatebwyr yn rhanedig wrth ateb y cwestiwn hwn. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a fynegodd farn yn cytuno â'r cynnig, dim ond tri yn fwy o ymatebwyr oedd yn cytuno â'r cynnig o'i gymharu â'r rheini a oedd yn anghytuno.

3.41 Yn debyg i'r ymatebion i gwestiwn 13, cydnabuwyd y rhesymeg y tu ôl i'r cynnig yn nifer o'r ymatebion a hynny o ran pwysigrwydd cynllunio hirdymor ym maes y Gymraeg ac nad oedd cynlluniau blynyddol yn addas i gyflawni hyn. Fodd bynnag, roedd nifer o'r ymatebwyr yn anfodlon â'r cynnig ar y sail bod angen hyblygrwydd i ymateb i newidiadau a thueddiadau newydd na ellir eu rhagweld dros gyfnod o bum mlynedd.

**Cwestiwn 15 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiddymu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg a rhoi'r pŵer i Lywodraeth Cymru geisio cyngor gan y Comisiwn arfaethedig, sef Comisiwn y Gymraeg?**

**Ffigur 11: Ymatebion i Gwestiwn 15**




3.42 Roedd mwyafrif o'r ymatebion yn cytuno â'r cynnig hwn. Roedd mwyafrif yr awdurdodau lleol a ymatebodd yn ei gefnogi, ynghyd â'r cyrff o'r sector addysg a'r sector iechyd. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno yn derbyn y rhesymeg y byddai'r Comisiwn arfaethedig yn cyflawni swyddogaeth Cyngor Partneriaeth y Gymraeg, ac felly y dylid diddymu'r Cyngor i osgoi dyblygu. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad 'pŵer' y dylid ei gael ond dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i fynnu cyngor y Comisiwn arfaethedig.


**Cwestiwn 16 – A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar Ran 2 y Papur Gwyn?**

3.43 Roedd rhai o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn yn adlewyrchu themâu sydd wedi'u hamlygu mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn. Er enghraifft, nododd un ymateb y dylai'r Cyngor Partneriaeth barhau'n annibynnol o'r Comisiwn arfaethedig, a'r pwysigrwydd sicrhau bod y cynigion yn y Papur Gwyn yn adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i gwblhau eisoes ym maes polisi'r Gymraeg. Roedd un mudiad a ymatebodd yn amau'r dystiolaeth a roddwyd yn sail i'r cynigion yn y Papur Gwyn. Yn ogystal, roedd dau aelod o'r cyhoedd o'r farn y dylid cyfeirio'r arian a fuddsoddir i gefnogi'r Gymraeg mewn meysydd polisi eraill megis addysg ac iechyd.

## Rhan 3: Safonau'r Gymraeg

**Cwestiwn 17 – Rydym yn cynnig y dylid mabwysiadu model diwygiedig o'r Safonau (Opsiwn 2) fel y ffordd orau o sicrhau hawliau pobl i dderbyn gwasanaethau Cymraeg. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?**

**Ffigur 12: Ymatebion i Gwestiwn 17**




3.44 Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn o blaid model diwygiedig o'r Safonau fel y cynigwyd yn y Papur Gwyn.

3.45 O'r 81 o ymatebwyr sydd wedi dod i gysylltiad â chyfundrefn Safonau'r Gymraeg, cytunodd 69 ohonynt â'r cynnig. Roedd ymatebion nifer o gyrff yn adleisio'r sylwadau a fynegwyd ganddynt ar gymhlethdodau'r gyfundrefn bresennol o'r alwad am dystiolaeth[3] a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru cyn cyhoeddi'r Papur Gwyn. Anghytunodd tri chorff â'r cynnig (dau awdurdod lleol ac un o'r gwasanaethau tân ac achub) tra bod naw ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Gwnaeth ymatebwyr o wahanol rannau o Gymru sydd â phroffil ieithyddol gwahanol nodi pwysigrwydd adeiladu ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o dan y gyfundrefn bresennol, a sicrhau nad yw'r adnoddau a fuddsoddwyd ganddynt i sefydlu'r gyfundrefn bresennol yn mynd yn ofer.

3.46 Nododd nifer o ymatebwyr fod y gyfundrefn yn ei dyddiau cynnar ac felly na ddylid ei newid yn sylweddol. Yn ogystal, nododd sawl ymatebydd y cynnydd sydd wedi'i wneud o dan y gyfundrefn Safonau hyd yr hyn gan drafod canlyniadau Adroddiad Sicrwydd 2016-17 Comisiynydd y Gymraeg: Hawliau'n Gweriddio.[4] Croesawodd nifer o ymatebwyr bwyslais y model diwygiedig o Safonau ar wella gwasanaethau Cymraeg ac unioni methiannau yn hytrach na gorfodi, fel yr eglurwyd yn y Papur Gwyn.

[3] http://gov.wales/docs/dcells/publications/170718-wl-bill-sor-cy.pdf


[4] http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20170926%20DG%20Adroddiad%20Sicrwydd%20terfynol%20Cymraeg.pdf

3.47 Rhoddodd nifer o ymatebwyr sylw i'r cysyniad a nodwyd yn y Papur Gwyn y dylai pob corff symud tuag at weithredu'r un Safonau dros amser fel bod hawliau pobl i gael gwasanaethau yn y Gymraeg yr un fath, ble bynnag maent yn byw yng Nghymru. Gelwir y cysyniad hwn yn 'egwyddor gydgyfeirio' yn y Papur Gwyn. Tra bod yr egwyddor wedi'i chroesawu gan nifer o ymatebwyr yng Nghymru, roedd yr egwyddor yn peri pryder i rai cyrff nad oes ganddynt swyddfa yng Nghymru.

3.48 Wrth ateb y cwestiwn hwn, ychwanegodd rhai ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru ystyried parhau â'r gyfundrefn Safonau yn ogystal â chynnwys rhai hawliau yn ymwneud â'r Gymraeg ar wyneb y Bil. Yr hawliau mwyaf cyffredin yr awgrymwyd y dylid ystyried eu cynnwys ar wyneb y ddeddfwriaeth oedd hawl i addysg Gymraeg a'r hawl i ofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cwestiwn 18 – Rydym wedi seilio'r cynnig rydym yn ei ffafrio i ddiwygio'r Safonau (Opsiwn 2) ar sail yr eglurder, y capasiti ar gyfer gwella a'r costau newid sy'n gysylltiedig â phob opsiwn (paragraffau 163–165). A ydych chi'n cytuno â'n dadansoddiad?**

**Ffigur 13: Ymatebion i Gwestiwn 18**




3.49 Roedd mwyafrif o'r rhai a fynegodd farn yn cytuno â'r dadansoddiad a roddwyd yn y Papur Gwyn o blaid opsiwn 2 i fabwysiadu model diwygiedig o Safonau'r Gymraeg.

3.50 O'r 67 o gyrff sydd wedi dod i gysylltiad â chyfundrefn Safonau'r Gymraeg ac a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 45 ohonynt yn cytuno, tri yn anghytuno ac 19 ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd llai o gytundeb ymysg aelodau'r cyhoedd a ymatebodd i'r cwestiwn hwn. Cytunodd 18 â'r dadansoddiad, roedd 21 yn anghytuno ac nid oedd 26 yn cytuno nac yn anghytuno.


3.51 Cynigodd rhai ymatebwyr ffactorau eraill y gellid eu hystyried wrth ddod i benderfyniad terfynol. Er enghraifft, tra'n cytuno â'r meini prawf a ddefnyddiwyd, nododd un awdurdod lleol y dylid glynu at egwyddorion yn ymwneud â pharhau i sicrhau hawliau i ddefnyddwyr ac ymrwymo sefydliadau i ddarparu gwasanaethau

heb wanhau egwyddorion craidd y Safonau. Nododd aelod o'r cyhoedd mai defnyddwyr gwasanaethau ddylai fod yn ystyriaeth bennaf a nododd un mudiad mai lles, profiad a buddiannau siaradwyr Cymraeg ddylai fod wrth wraidd y cynigion.

3.52 Yn ogystal â'r ystyriaethau uchod, roedd un ymatebydd o'r farn y dylid ystyried gwahaniaeth rhwng cyrff sy'n gweithredu yng Nghymru yn unig o'u cymharu â chyrff sy'n gweithredu ar draws Cymru a Lloegr. Nododd un ymatebydd o'r sector preifat fod y meini prawf a fu'n sail i'r dadansoddiad wedi'u selio'n llwyr ar brofiad o osod, monitro a gorfodi Safonau'r Gymraeg ar y sector cyhoeddus. Roedd yr ymatebydd o'r farn y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r hyn y byddai Safonau'r Gymraeg yn ei olygu i gyrff y sector preifat, o ystyried y cynnig a geir yn y Papur Gwyn i roi'r pŵer i Lywodraeth Cymru greu Safonau'r Gymraeg ar gyfer unrhyw gorff o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Cwestiwn 19 – A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiddymu'r dosbarthiadau presennol o Safonau, a gwahaniaethu rhwng 'Safonau' (a fyddai'n berthnasol i wasanaethau) a 'dyletswyddau cynllunio ieithyddol' (a fyddai'n berthnasol i ddyletswyddau corfforaethol)?**

**Ffigur 14: Ymatebion i Gwestiwn 19**




3.53 Roedd mwyafrif clir o'r ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig.

3.54 O'r cyrff sydd wedi dod i gysylltiad â chyfundrefn Safonau'r Gymraeg, atebodd 69 ohonynt y cwestiwn hwn. Cytunodd 48 ohonynt â'r cynnig a gwnaeth saith anghytuno. Nodwyd pwysigrwydd cadw cofnodion a dyletswyddau corfforaethol eraill fel rhan allweddol o sicrhau bod cyrff yn llwyddo i ddarparu gwasanaethau Cymraeg gan nifer o ymatebwyr.

3.55 Roedd rhai ymatebwyr yn credu y byddai'n gwneud synnwyr gwahaniaethu rhwng dyletswyddau corfforaethol a'r dyletswyddau sy'n creu hawliau i bobl dderbyn gwasanaethau, ar sail eglurder i'r cyhoedd o ran yr hyn sydd angen i gyrff ei gynnig. Roedd un mudiad o blaid y cynnig am ei fod yn credu y byddai'r dyletswyddau

cynllunio ieithyddol yn allweddol i sicrhau newid diwylliant o fewn cyrff. Fodd bynnag, roedd pryderon ymysg rhai ymatebwyr y gallai greu dyletswyddau newydd arwain at ddiffyg eglurder a biwrocratiaeth trwy greu haen ychwanegol o ddyletswyddau'n ymwneud â'r Gymraeg.


3.56 Cynigodd Cyngor Gwynedd y gallai'r dyletswyddau hyn weithio i sicrhau cyswllt mwy eglur rhwng y Safonau a darpariaethau polisïau a fframweithiau eraill megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a 'Fframwaith strategol olynol: Mwy na geiriau'. Yn ogystal, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ymdebygu'r dyletswyddau cynllunio ieithyddol arfaethedig (ynghyd â'r gwaith y byddai'r Comisiwn yn ei wneud i gefnogi cyrff i gwrdd â gofynion y dyletswyddau) â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a'r gefnogaeth gysylltiedig gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

3.57 Thema a gododd mewn nifer o ymatebion oedd grym y dyletswyddau arfaethedig. Roedd rhai ymatebwyr yn glir y dylai grym cyfreithiol a gorfodaeth statudol berthyn i'r dyletswyddau i sicrhau eu bod yn effeithiol. Tra bod rhai yn gweld pwysigrwydd gorfodi'r dyletswyddau hyn, roedd un awdurdod lleol o'r farn nad oedd o reidrwydd angen yr un lefel o orfodaeth yng nghyd-destun y Safonau o gymharu â dyletswyddau cynllunio ieithyddol.

3.58 Thema arall a oedd yn gyffredin i nifer o ymatebwyr oedd aneglurder ynghylch pwy fyddai'n destun i'r dyletswyddau arfaethedig.

**Cwestiwn 20 – A ydych chi o'r farn y dylid cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn y ddeddfwriaeth newydd fel dyletswyddau cynllunio ieithyddol?**

**Ffigur 15: Ymatebion i Gwestiwn 20**





3.59 Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn o'r farn y dylid cynnwys darpariaethau ar gyfer Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg fel dyletswyddau cynllunio ieithyddol.

3.60 Roedd nifer o ymatebion yn cydnabod pwysigrwydd y system addysg i wireddu'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. O'r 13 awdurdod lleol a ymatebodd i'r cynnig, roedd 11 o'r farn y dylid cynnwys Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg fel dyletswyddau cynllunio ieithyddol. Fodd bynnag, roedd ansicrwydd ymhlith llawer o ymatebwyr gan nad oeddynt yn ymwneud yn uniongyrchol â Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

**Cwestiwn 21 – Oes yna unrhyw faterion eraill y dylid, yn eich barn chi, eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth newydd fel dyletswyddau cynllunio ieithyddol?**

**Ffigur 16: Ymatebion i Gwestiwn 21**





3.61 Roedd barn yr ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn rhanedig.

3.62 Cafwyd awgrymiadau ar gyfer dyletswyddau newydd y gellir eu hystyried fel dyletswyddau cynllunio ieithyddol posibl mewn ymatebion i'r cwestiwn hwn. Nododd sawl awdurdod lleol a chyrff eraill y dylid creu dyletswyddau'n ymwneud â chynllunio'r gweithlu fel dyletswyddau cynllunio ieithyddol. Awgrymodd un ymatebydd y gellid rhoi dyletswydd cynllunio ieithyddol ar sectorau penodol a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddynt fabwysiadu strategaeth pum mlynedd ar gyfer y Gymraeg. Wrth gynnig dyletswyddau cynllunio ieithyddol posibl, awgrymodd y Coleg Nyrsio Brenhinol ddyletswydd cynllunio ieithyddol ar gyfer cyrff yn y sector iechyd i sicrhau cynnydd yn y nifer o ymarferwyr proffesiynol sy'n gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

3.63 Tra bod rhai ymatebwyr wedi awgrymu dyletswyddau penodol y dylid ystyried eu cynnwys fel dyletswyddau cynllunio ieithyddol, awgrymodd rhai ymatebwyr ddyletswyddau a fyddai'n gosod uchelgais. Er enghraifft, cynigodd un mudiad y dylid creu dyletswydd i greu tirwedd ieithyddol sy'n ffafrio'r Gymraeg, a chynigodd ymatebydd arall y dylid gweithio tuag at uchelgais bod pobl yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn hawdd.

**Cwestiwn 22 – A ydych chi'n cytuno y dylai fod gan y Comisiwn arfaethedig bwerau cyffredinol i gynnal ymchwiliadau i sut mae cyrff yn cyflawni eu dyletswyddau o ran y Gymraeg, a fyddai'n cynnwys y Safonau a'r dyletswyddau cynllunio ieithyddol?**

**Ffigur 17: Ymatebion i Gwestiwn 22**





3.64 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cytuno â chynnig Llywodraeth Cymru i roi'r pwerau cyffredinol hyn i Gomisiwn arfaethedig y Gymraeg.

3.65 O'r 99 ymatebydd a oedd yn cytuno â'r cynnig hwn yn y Papur Gwyn, roedd 51 ohonynt yn gyrff sydd wedi dod i gysylltiad â chyfundrefn Safonau'r Gymraeg. Yn gyffredinol, aelodau'r cyhoedd oedd y mwyaf tebygol o anghytuno â'r cynnig, gyda 32 ymatebydd yn nodi eu bod yn anghytuno o'i gymharu â 28 yn cytuno a saith ymatebydd nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno.

**Cwestiwn 23 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai'r Comisiwn arfaethedig fonitro a chefnogi cyrff mewn perthynas â'u dyletswyddau cynllunio ieithyddol, yn hytrach na'u gorfodi?**

**Ffigur 18: Ymatebion i Gwestiwn 23**





3.66 Roedd mwy o ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno gyda'r cynnig hwn.

3.67 Cefnogwyd yr egwyddorion a amlinellwyd yn y Papur Gwyn ar gyfer dyletswyddau cynllunio ieithyddol fel dyletswyddau cyfreithiol ar gyrff, ynghyd â'r egwyddor y dylai'r dyletswyddau hyn gael eu harfer ochr yn ochr â swyddogaeth y Comisiwn arfaethedig i fonitro sut mae cyrff yn arfer y dyletswyddau hyn a darparu rhaglenni cymorth ymarferol i helpu'r cyrff i ddatblygu sgiliau cynllunio ieithyddol. Fodd bynnag, nododd nifer o ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig am eu bod yn ansicr beth fyddai'r goblygiadau pe na bai'r corff yn cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ieithyddol. Roedd rhai sefydliadau megis Cyngor Sir Ceredigion o'r farn bod cynnwys elfen o orfodaeth i'r dyletswyddau yn bwysig er mwyn sicrhau cynnydd.

**Cwestiwn 24 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i roi cyfrifoldeb am osod Safonau ar gyrff i Lywodraeth Cymru, p'un ai drwy hysbysiad cydymffurfio neu drefn arall?**

**Ffigur 19: Ymatebion i Gwestiwn 24**





3.68 O'r sawl a fynegodd farn, roedd y rhan fwyaf o ymatebion yn cytuno â'r cynnig hwn (83). O'r 83 o ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig, roedd 50 ohonynt yn gyrff sydd wedi dod i gysylltiad â chyfundrefn Safonau'r Gymraeg. Yn gyffredinol, roedd nifer o gyrff yn ystyried bod y llywodraeth yn meddu ar ystod ehangach o brofiadau o sectorau gwahanol ar draws ei feysydd polisi na fyddai gan gorff allanol, ac felly byddai'r llywodraeth mewn sefyllfa well i ddeall natur gwaith y cyrff wrth osod dyletswyddau arnynt. Fodd bynnag, nid oedd rhai mudiadau a sefydliadau yn rhannu'r farn hon. Yn hytrach, roeddent yn teimlo y dylai'r gwaith hwn gael ei wneud gan gorff hyd-braich oddi wrth y llywodraeth. Ym marn nifer o'r ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig, roedd pryderon y byddai'r cynnig yn arwain at ddylanwad gwleidyddol gormodol ar y broses o osod Safonau ar gyrff.

3.69 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn credu bod angen symleiddio a chyflymu'r broses o wneud a gosod Safonau'r Gymraeg a bod y broses ar ei gwedd bresennol yn rhy fiwrocrataidd ac yn feichus.

**Cwestiwn 25 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai pob un o’r rheoliadau i wneud Safonau fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn cyn gofyn am gymeradwyaeth y Cynulliad?**

**Ffigur 20: Ymatebion i Gwestiwn 25**





3.70 Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr â’r cynnig hwn, gan gynnwys y cyrff cyhoeddus, y cyrff o’r sector preifat ac aelodau’r cyhoedd. Roedd mwyafrif clir o’r ymatebwyr yn cytuno â’r cynnig y dylai pob un o’r rheoliadau i wneud Safonau fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

3.71 Cytunodd 52 o’r cyrff sydd wedi dod i gysylltiad â Safonau’r Gymraeg gyda’r cynnig ynghyd â 45 o aelodau’r cyhoedd. Ymysg rhai o’r ymatebion a oedd yn gwrthwynebu’r cynnig, nododd rhai eu bod yn credu bod y broses ymgynghori yn gallu ychwanegu at fiwrocratiaeth a’r amser a gymerir i wneud Safonau’r Gymraeg.

**Cwestiwn 26 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiddymu Ymchwiliadau Safonau?**

**Ffigur 21: Ymatebion i Gwestiwn 26**





3.72 Dangosodd y dadansoddiad o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn fod mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid diddymu Ymchwiliadau Safonau.

3.73 O'r cyrff hynny sy'n perthyn i sectorau oedd wedi bod yn destun Ymchwiliad Safonau, roedd 41 o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig ac 13 yn anghytuno. Yn gyffredinol, cytunwyd i'r cynnig ar y sail y byddai'n lleihau'r biwrocratiaeth sydd ynghlwm wrth gyfundrefn Safonau'r Gymraeg ar ei ffurf bresennol. Anghytunodd rhai cyrff a mudiadau â'r cynnig. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r corff hyd braich (boed yn Gomisiwn neu'n Gomisiynydd) arwain ar y gwaith hwn, tra bod eraill yn cwestiynu sut y gellid llunio Safonau addas heb gynnal ymchwiliad i sicrhau bod y Safonau'n addas ar gyfer y gwasanaethau a gyflenwir gan y cyrff perthnasol. Roedd nifer fach o ymatebwyr wedi camddeall yr ystyr, am eu bod wedi dehongli 'Ymchwiliadau Safonau' fel yr ymchwiliad a gynhelir gan Gomisiynydd y Gymraeg i benderfynu p'un a yw corff wedi methu cydymffurfio â Safonau.

**Cwestiwn 27 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid rhoi pwerau i gyhoeddi codau ymarfer neu ganllawiau mewn perthynas â'r Safonau i Lywodraeth Cymru?**

**Ffigur 22: Ymatebion i Gwestiwn 27**





3.74 Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr a ddarparodd ateb i'r cwestiwn hwn o blaid y cynnig yn y Papur Gwyn i roi pwerau i Lywodraeth Cymru gyhoeddi codau ymarfer neu ganllawiau mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg.

3.75 Roedd hi'n amlwg yn yr ymatebion gan gyrff sydd wedi dod i gysylltiad â chyfundrefn Safonau'r Gymraeg eu bod yn gefnogol iawn i'r cynnig o greu codau ymarfer i'w cynorthwyo i weithredu'r Safonau. Yn y cyd-destun hwn, trafodwyd yn yr ymatebion gan gyrff sy'n gweithredu dan gyfundrefn Safonau'r Gymraeg eisoes anawsterau wrth ddehongli safonau a sicrhau cysondeb wrth eu gweithredu. Cytunodd mwyafrif y cyrff sydd wedi dod i gysylltiad â chyfundrefn Safonau'r Gymraeg a hefyd y rhan fwyaf o aelodau'r cyhoedd a ymatebodd, y dylid rhoi'r pwerau i gyhoeddi codau ymarfer a chanllawiau i Lywodraeth Cymru. Awgrymodd rhai y dylid ystyried ymgynghori ar y codau neu'r canllawiau arfaethedig.

3.76 Yn groes i'r mwyafrif, roedd rhai ymatebwyr gan gynnwys rhai mudiadau a chyrff a oedd wedi dod i gysylltiad â Safonau'r Gymraeg, o'r farn y dylai'r Comisiwn arfaethedig (neu Gomisiynydd y Gymraeg) fod yn gyfrifol am y swyddogaeth hon.

**Cwestiwn 28 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gael pŵer i osod Safonau ar yr holl gyrff mewn sector yn uniongyrchol drwy reoliadau, heb fod angen hysbysiad cydymffurfio neu drefn arall gyffelyb?**

**Ffigur 23: Ymatebion i Gwestiwn 28**




3.77 Roedd barn ymatebion yn rhanedig ar y cynnig hwn ac nid oedd mwyafrif i'r naill ffordd na'r llall. O'r cyrff sydd wedi dod i gysylltiad â chyfundrefn Safonau'r Gymraeg, cytunodd 31 â'r cynnig gyda 20 yn gwrthwynebu a 16 ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

3.78 Yn gyffredinol, roedd croeso i'r cynnig hwn gan rai ymatebwyr ar y sail y gallai hyn gyflymu a symleiddio'r broses o osod dyletswyddau ar gyrff. Fodd bynnag, roedd nifer o ymatebwyr yn glir bod angen sicrhau ffordd o newid gofynion ar gyfer cyrff unigol er mwyn sicrhau bod y Safonau'n rhesymol ac yn gymesur i gorff penodol. Cynigodd rhai ymatebwyr y gallai'r cynnig hwn fod yn bosibl pe bai proses ymgynghori fwy trwyadl ar gyfer y dull hwn o osod Safonau'r Gymraeg. Mynegodd rhai sefydliadau ac aelodau'r cyhoedd bryder ynghylch y cynnig hwn ar y sail y gallai olygu bod gofynion ar sector cyfan yn is nag y gallant fod, er mwyn iddynt fod yn addas i'r corff sydd â'r capasiti lleiaf i weithredu gwasanaethau Cymraeg yn y sector hwnnw.

**Cwestiwn 29 – Pa ffactorau y dylid eu cymryd i ystyriaeth neu pa weithdrefn y dylid ei dilyn er mwyn sicrhau bod y broses o osod Safonau ar Lywodraeth Cymru yn deg a thryloyw?**

3.79 Derbyniwyd sawl awgrym gan yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn nodi ffyrdd y gellid sicrhau tryloywder a thegwch wrth osod Safonau ar Lywodraeth Cymru. Ymysg yr opsiynau oedd:

- Rôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran gosod Safonau ar Lywodraeth Cymru trwy gymeradwyo hysbysiad cydymffurfio;
- Ymgynghori ar Safonau arfaethedig i'w gosod ar Lywodraeth Cymru gyda fforymau a fyddai'n cynnwys prif swyddogion cyrff cyhoeddus;


- Gwneud y rheoliadau a fyddai'n pennu'r Safonau'n destun i'r weithdrefn uwchgadarnhaol;
- Ymgynghoriad cyhoeddus trwyadl ac agored;
- Rôl i Gomisiwn y Gymraeg i lunio'r Safonau i'w gosod ar Lywodraeth Cymru;
- Rôl i gyrff cyhoeddus neu gorff allanol arall.

3.80 Wrth drafod rôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wrth osod Safonau ar Lywodraeth Cymru, cafwyd rhai sylwadau a oedd yn nodi y gallai'r Cynulliad ddod yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru â'r Safonau. Roedd un ymatebydd o'r farn bod hyn yn dilyn yr egwyddor gyfansoddiadol bod y llywodraeth yn atebol i'r Cynulliad.

3.81 Yn ogystal â chynnig argymhellion ar gyfer sicrhau tryloywder a thegwch yn y broses hon, ategodd rhai ymatebwyr eu hymatebion i gwestiwn 24 gan nodi mai corff annibynnol (megis Comisiynydd y Gymraeg neu Gomisiwn arfaethedig y Gymraeg) a ddylai fod yn gyfrifol am osod Safonau ar Lywodraeth Cymru.

**Cwestiwn 30 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid gorfod delio â chwynion drwy weithdrefn gwyno'r corff perthnasol cyn y caiff y Comisiwn arfaethedig, sef Comisiwn y Gymraeg, ymchwilio i fethiant honedig?**

**Ffigur 24: Ymatebion i Gwestiwn 30**




3.82 O blith yr ymatebion a ddaeth i law i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif ohonynt yn cytuno â chynnig y llywodraeth y dylid delio â chwynion yn ymwneud â gwasanaethau Cymraeg drwy weithdrefn gwyno'r corff perthnasol cyn y caiff y Comisiwn arfaethedig ymchwilio i fethiant honedig.

3.83 Soniodd nifer o ymatebwyr am broblemau gyda'r drefn bresennol ar gyfer delio â chwynion megis y biwrocratiaeth cysylltiedig a'r amser y mae'n ei gymryd i ddelio â chwynion. O'r holl gyrff sydd wedi dod i gysylltiad â Safonau'r Gymraeg, ni wnaeth unrhyw un ohonynt anghytuno â'r cynnig hwn. Yn hytrach, cytunodd 81 â'r cynnig a dau ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn ei bod yn bwysig eu bod nhw'n gallu delio gyda chwynion eu hunain yn gyntaf, gan na ddylid


trin cwynion ynghylch gwasanaethau Cymraeg yn wahanol i gwynion yn ymwneud ag elfennau eraill o wasanaethau. Yn ogystal, nododd nifer o gyrff eu bod eisiau delio gyda chwynion yn gyntaf er mwyn cael cyfle i ddysgu gwersi, unioni unrhyw wallau ac hefyd er mwyn iddynt allu cymryd cyfrifoldeb am eu methiannau. Roedd y rhan fwyaf o aelodau'r cyhoedd a ymatebodd hefyd yn cefnogi'r cynnig hwn. Yn ei ymateb, nododd Archwilydd Cyffredinol Cymru y byddai'r cynnig yn darparu system fwy effeithlon ac effeithiol na'r trefniadau presennol.

3.84 Roedd nifer leiafrifol o'r ymatebwyr o'r farn y dylid parhau i ganiatáu cyfeirio cwynion yn uniongyrchol at y corff hyd braich sy'n gyfrifol am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Nododd UCAC fod ffactorau cymdeithasol-ddiwylliannol sy'n gallu ei gwneud hi'n anodd cwyno wrth gorff mewn perthynas â'r Gymraeg. Yn ogystal, trafododd rhai aelodau o'r cyhoedd eu profiadau wrth wneud cwynion i sefydliadau. Roedd Comisiynydd y Gymraeg o'r farn y dylid parhau i ganiatáu cyfeirio cwynion yn uniongyrchol at y corff sydd â chyfrifoldeb dros fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg (sef Comisiynydd y Gymraeg o dan y drefn bresennol a Chomisiwn y Gymraeg o dan y cynigion yn y Papur Gwyn). Roedd hefyd yn teimlo y dylai fod gan y corff hwnnw ddisgresiwn eang wrth ddelio â chwynion am wasanaethau Cymraeg.

3.85 Yn ogystal â thrafod rhinweddau'r cynnig hwn, cynigodd rhai ymatebwyr opsiynau eraill y gellid eu hystyried ar gyfer delio gyda chwynion yn ymwneud â gwasanaethau o dan Safonau'r Gymraeg. Cynigodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru y gallai'r Ombwdsmon fod yn gyfrifol am ddelio â chwynion yn erbyn cyrff ynghylch eu gwasanaethau Cymraeg, yn hytrach na'r Comisiwn arfaethedig.

**Cwestiwn 31 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig fod yn rhaid i gyrff gadw at weithdrefn gwyno sydd wedi'i chymeradwyo fel y Polisi Pryderon a Chwynion Enghreifftiol?**

**Ffigur 25: Ymatebion i Gwestiwn 31**





3.86 Ar draws yr holl ymatebion a dderbyniwyd, roedd mwyafrif o blaid y cynnig yn y Papur Gwyn y dylai cyrff orfod cadw at weithdrefn sydd wedi'i chymeradwyo. O'r cyrff a gytunodd â'r cynnig hwn, roedd 57 ohonynt yn gyrff sydd wedi dod i gysylltiad â

Safonau'r Gymraeg. Yn ogystal, cytunodd y mwyafrif o aelodau'r cyhoedd â'r cynnig hwn. Yn ôl y sylwadau yn yr ymatebion, roedd cefnogaeth iddo ar y sail y byddai'n creu cysondeb wrth ddelio â chwynion am wasanaethau Cymraeg.

3.87 Derbyniwyd sylwadau gan gwmnïau o'r sector preifat a rhai cyrff cyhoeddus sy'n gweithredu y tu allan i Gymru, a oedd yn mynegi pryder ynghylch y cynnig hwn. Yn eu tyb nhw, gallai'r cynnig arwain at broses gwyno ar wahân ar gyfer cwynion yn ymwneud â'r Gymraeg ac efallai achosi gwrthdaro â gofynion cyfreithiol eraill ar gyrff yn ymwneud â phrosesau cwyno penodol ar gyfer y sector. Yn ogystal, mynegwyd pryder gan rai y gallai'r cynnig ddrysu defnyddwyr gwasanaethau pe byddai cwyn yn cael ei thrin yn wahanol i'r arfer oherwydd ei bod yn ymwneud â'r Gymraeg.

**Cwestiwn 32 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig mai dim ond os yw o'r farn fod yr achos honedig o dorri Safon neu weithdrefn gwyno yn un ddifrifol y dylai'r Comisiwn arfaethedig gael cymryd camau gweithredu pellach mewn perthynas â chŵyn?**


**Ffigur 26: Ymatebion i Gwestiwn 32**




3.88 Cafwyd cytundeb cyffredinol i'r cwestiwn hwn ymhlith nifer o ymatebwyr gwahanol, ac roedd mwyafrif clir yn cytuno â'r cynnig. Gan aelodau'r cyhoedd oedd y nifer fwyaf o ymatebion a oedd yn anghytuno â'r cynnig. Roedd 30 o aelodau'r cyhoedd yn cytuno, 22 yn anghytuno a nododd 13 nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno. Cafwyd awgrymiadau mewn rhai ymatebion ar ffactorau y dylid eu hystyried wrth ddiffinio 'difrifol'. Er enghraifft, nododd un ymatebydd o'r sector preifat y gallai nam effeithio ar nifer fawr o gwsmeriaid gan iddynt ddefnyddio system gwasanaethu cwsmeriaid sy'n gweithredu ar raddfa mawr. Yn eu tyb nhw, ni ddylid ystyried hyn yn 'ddifrifol' yng nghyd-destun cynnig y Papur Gwyn.

**Cwestiwn 33 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ganiatáu i'r Comisiwn arfaethedig gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun?**

**Ffigur 27: Ymatebion i Gwestiwn 33**





3.89 Roedd cefnogaeth i'r cynnig hwn yn y Papur Gwyn, gyda'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno ag ef. Cytunodd 53 o'r cyrff sydd wedi dod i gysylltiad â chyfundrefn Safonau'r Gymraeg â'r cynnig, tra bod wyth yn anghytuno a chwech ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Aelodau'r cyhoedd oedd yn lleiaf tebygol o gytuno â'r cynnig. Roedd 29 o aelodau'r cyhoedd o'i blaid, 26 yn anghytuno a 11 ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

3.90 Roedd rhai ymatebwyr yn awyddus i ddeall pryd fyddai'r Comisiwn arfaethedig yn gallu dechrau ymchwiliad ar ei liwt ei hun. Yn ogystal, roedd rhai o'r farn y dylent gael cyfle i drafod yn anffurfiol â'r Comisiwn destun unrhyw ymchwiliad arfaethedig.

**Cwestiwn 34 – A ydych chi'n cytuno fod y camau gweithredu a ddisgrifir ym mharagraff 225 yn darparu amrywiaeth effeithiol o gamau gorfodi?**

**Ffigur 28: Ymatebion i Gwestiwn 34**





3.91 Cafwyd cytundeb i'r cynnig hwn gan fwyafrif yr ymatebwyr.

3.92 O'r cyrff a ddewisodd mynegi barn ar y cwestiwn hwn, cytunodd bob corff oedd yn cynrychioli'r sector iechyd a gofal (18), pob corff a ariennir gan Lywodraeth Cymru i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg (11), pob corff o'r sector addysg (14), pob awdurdod lleol (13), a phob corff o'r sector preifat (6) â'r cynnig hwn. Roedd peth anghytundeb ymysg aelodau'r cyhoedd, gyda 14 yn cytuno a 23 yn ei wrthod.

3.93 Er bod nifer yn cytuno â'r camau gweithredu, roedd nifer o ymatebion yn adlewyrchu'r pwysigrwydd o gael graddfa o gamau gweithredu ac y dylid cadw'r camau 'trymaf' fel pwerau a ddefnyddir pan fetha popeth arall. Yn ogystal, cafwyd cynigion gan rai cyrff ar gyfer camau eraill y dylid ystyried eu cynnwys o fewn y sbectrwm camau gorfodi a ddylai fod ar gael i'r Comisiwn. Ymysg y cynigion hyn, roedd cynnig gan UCAC i'r Comisiwn arfaethedig ddarparu cyngor a chymorth ar sicrhau gweithdrefnau neu gapasiti i osgoi ailadrodd y sefyllfa eto.

**Cwestiwn 35 – Ar hyn o bryd, mae gan y Comisiynydd bwerau i osod dirwy sifil o hyd at £5,000 ac, mewn rhai amgylchiadau, i ofyn am orchymyn llys i'w gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid cadw'r pwerau hyn?**


**Ffigur 29: Ymatebion i Gwestiwn 35**




3.94 O'r atebion a dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif ohonynt yn cytuno â'r cynnig. O'r cyrff sydd wedi dod i gysylltiad â chyfundrefn Safonau'r Gymraeg, darparodd 63 ohonynt ymateb i'r cwestiwn hwn. Cytunodd 58 ohonynt â'r cynnig. Yr ymatebwyr a oedd leiaf tebygol o gytuno â'r cynnig oedd aelodau'r cyhoedd. Cafwyd ymatebion gan bobl a oedd yn gwrthwynebu gorfodaeth yng nghyd-destun Safonau'r Gymraeg. Roedd rhai pobl a mudiadau o'r farn nad oedd lefel bresennol y ddirwy yn ddigonol i fod yn effeithiol, ac y dylid ei chodi.

**Cwestiwn 36 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gadw rôl y Tribiwnlys mewn perthynas â phenderfyniadau'r Comisiwn arfaethedig ynghylch gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â'r Safonau?**

**Ffigur 30: Ymatebion i Gwestiwn 36**





3.95 Roedd cytundeb i'r cynnig hwn ymysg pob categori o ymatebydd. Cytunodd bob un o'r cyrff â oedd wedi dod i gysylltiad â chyfundrefn Safonau'r Gymraeg â'r cynnig heblaw am un, a oedd ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno y dylid cadw'r gallu i apelio i'r Tribiwnlys ynghylch penderfyniadau ar y sail y byddai'n osgoi costau adolygiad barnwrol yn yr Uchel Lys. Aelodau o'r cyhoedd oedd yr 20 ymatebydd a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig.

3.96 Roedd un mudiad o'r farn y dylai fod hawliau mewn deddfwriaeth sylfaenol ac y dylai bod swyddogaeth gan y Tribiwnlys i ddehongli'r hawliau a sicrhau cydymffurfiaeth â nhw.

**Cwestiwn 37 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai'r Tribiwnlys hefyd ymdrin ag apelau yn erbyn penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i osod Safonau ar gorff?**


**Ffigur 31: Ymatebion i Gwestiwn 37**




3.97 Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr ar draws pob categori â’r cynnig hwn. O’r 17 o ymatebwyr a anghytunodd â’r cynnig, roedd 16 ohonynt yn aelodau o’r cyhoedd ac un yn gorff sydd wedi dod i gysylltiad â chyfundrefn Safonau’r Gymraeg. Cefnogwyd y cynnig yn gyffredinol gan fod ymatebwyr yn ystyried bod apelio i’r Tribiwnlys yn llai beichus nag apelio trwy geisio adolygiad barnwrol. Anghytunodd rhai â’r cynnig ar y sail eu bod yn credu y dylai’r apêl fod yn erbyn penderfyniad corff allanol i osod Safonau ar gorff, ac nid penderfyniad gan Lywodraeth Cymru. Roedd un mudiad a ymatebodd o’r farn y dylid ehangu’r hawl i apelio i’r Tribiwnlys i aelodau’r cyhoedd. Yn ogystal, codwyd pryder am y cynnig hwn gan un ymatebydd gan fod Gweinidogion Cymru’n penodi Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg.

**Cwestiwn 38 – Rydyn ni'n cynnig cyflwyno cam cyntaf gorfodol ar gyfer y Tribiwnlys mewn perthynas ag apelau yn erbyn penderfyniadau'r Comisiwn arfaethedig ynghylch gorfodi Safonau. Byddai'r cam cyntaf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Tribiwnlys roi caniatâd ar y sail bod siawns rhesymol y bydd y cais yn llwyddo neu pan fo rheswm cryf arall pam y dylai'r cais gael ei glywed. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig?**


**Ffigur 32: Ymatebion i Gwestiwn 38**




3.98 Cytunodd mwyafrif yr ymatebion ym mhob categori â'r cynnig hwn. Ymysg aelodau'r cyhoedd oedd y nifer fwyaf o ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig, gyda 25 yn cytuno ac 19 yn anghytuno. O'r cyrff a oedd wedi dod i gysylltiad â chyfundrefn Safonau'r Gymraeg, cytunodd 53 ohonynt â'r cynnig tra bod pump yn anghytuno. Cytunodd nifer o ymatebwyr y byddai'r cynnig hwn yn sicrhau y defnydd gorau o adnoddau'r Tribiwnlys. Gwrthwynebwyd y cynnig gan un mudiad ar y sail bod darpariaeth debyg i'r cynnig hwn yn bodoli eisoes o fewn Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg.

**Cwestiwn 39 – A ydych chi o'r farn y dylai'r cam cyntaf gorfodol arfaethedig fod yn gymwys i apelau yn erbyn penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i osod Safonau ar gorff?**

**Ffigur 33: Ymatebion i Gwestiwn 39**




3.99 Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr â'r cynnig hwn.

3.100 O gymharu â'r ymateb i gwestiwn 38, roedd llai o'r cyrff hynny sydd wedi dod i gysylltiad â chyfundrefn Safonau'r Gymraeg o'r farn y dylai'r cam gorfodol cyntaf fod yn gymwys i apelau yn erbyn penderfyniadau Llywodraeth Cymru yn hytrach na phenderfyniadau'r Comisiwn arfaethedig. Cytunodd 41 o'r cyrff hyn â'r cynnig, tra bod 12 yn anghytuno a 10 yn ansicr. Roedd y farn ymhlith aelodau'r cyhoedd yn rhanedig. Cytunodd 19 â'r cynnig, ac roedd 19 yn anghytuno a 25 yn ansicr.


**Cwestiwn 40 – A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar Ran 3 y Papur Gwyn?**

3.101 Ymhlith yr ymatebion a dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn, cafwyd sylwadau gan rai a oedd yn adlewyrchu themâu sydd wedi'u hamlygu mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn. Ymysg y themâu hyn, roedd cynigion yn y Papur Gwyn ynghylch sicrhau bod cwynion am fethiannau cyrff i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn cael eu cyfeirio at y corff yn y lle cyntaf, sylwadau ar elfennau biwrocrataidd y gyfundrefn bresennol, a gwrthwynebiad gan leiafrif o ymatebwyr i'r cynigion ar y sail y dylid gwario'r arian ar flaenoriaethau eraill. Nododd rhai ymatebwyr bwysigrwydd yr unigolyn a hawliau pobl fel ystyriaeth bwysig o fewn deddfwriaeth iaith.

## Rhan 4: Cwmpas y cyrff sy'n ddarostyngedig i ddeddfwriaeth y Gymraeg

**Cwestiwn 41 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddileu'r cyfyngiadau yn y Mesur fel bod Llywodraeth Cymru'n meddu ar y pŵer i wneud Safonau'n gymwys i unrhyw gorff o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad?**

**Ffigur 34: Ymatebion i Gwestiwn 41**





3.102 Ac eithrio aelodau'r cyhoedd, cytunodd y rhan fwyaf o ymatebwyr ym mhob un categori â'r cynnig hwn. Yn ogystal, roedd y mwyafrif o'r holl ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig.

3.103 Cytunodd 11 o'r 13 awdurdod lleol a ymatebodd, yn ogystal â phedwar o'r pump corff o'r sector preifat a ddarparodd ymateb i'r cwestiwn hwn. Nododd rhai ymatebwyr eu pryderon ynghylch gorfodi Safonau'r Gymraeg ar y sector preifat ac effaith hyn ar fusnesau bach ac ar fewn-fuddsoddiad a denu cyflogaeth i Gymru. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr a anghytunodd yn aelodau'r cyhoedd (27).

3.104 Wrth drafod Safonau mewn rhannau eraill o'u hymatebion, nododd nifer o ymatebwyr y sector preifat bwysigrwydd ystyried costau posibl all fod ynghlwm â gweithredu Safonau. Yn y cyd-destun hwn, nododd un ymatebydd y gallai'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Safonau rwystro mynediad i'r farchnad Gymreig neu rwystro cwmnïau rhag ehangu, ac y byddai'r costau'n debygol o gael eu trosglwyddo i'w cwsmeriaid. Roedd un ymatebydd o'r farn y gallai costau beichus beri i rai cwmnïau dynnu nôl o'r farchnad Gymreig. Yn ogystal, ymdriniodd nifer o ymatebwyr o'r sector preifat gyda natur gystadleuol y sector preifat. Roedd un o'r ymatebwyr hyn o'r farn y gallai darparu gwasanaethau Cymraeg safonol fod yn fodd i ysgogi cystadleuaeth rhwng cwmnïau. Yn ogystal, rhoddwyd ystyriaeth mewn nifer o ymatebion i bwysigrwydd caniatáu i gwmnïau herio dyletswyddau unigol ar sail rhesymoldeb a chymesuredd. Yng nghyd-destun rhesymoldeb a chymesuredd, roedd un ymatebydd o'r farn y dylai'r Safonau fod yr un fath i gwmnïau ar draws sector i osgoi rhoi mantais i gystadleuwyr.

**Cwestiwn 42 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig mai dim ond mewn perthynas â'r gwasanaethau y maent yn eu cyflenwi i'w cwsmeriaid y dylai busnesau yn y sector preifat fod yn agored i orfod cydymffurfio â Safonau?**

**Ffigur 35: Ymatebion i Gwestiwn 42**




3.105 Cafwyd barn ranedig ar draws yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac nid oedd mwyafrif i'r naill ffordd neu'r llall. Er nad oedd llawer o wahaniaeth yn y niferoedd rhwng yr ymatebwyr a oedd yn cytuno, yn anghytuno neu ddim yn cytuno nac yn anghytuno, roedd y rhan fwyaf yn cytuno â'r cynnig.

3.106 O'r chwe chwmni o'r sector preifat a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 4 ohonynt yn cytuno, un yn anghytuno ac un ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Cytunodd 21 o aelodau'r cyhoedd â'r cynnig, gwnaeth 29 anghytuno a nododd 15 nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno. Yn gyffredinol, nododd rhai ymatebwyr nad oeddynt yn cytuno â'r cynnig ar y sail y dylai fod yn bosibl gosod dyletswyddau ar gyrff yn ymwneud â chynllunio'r gweithlu. Yn ogystal, roedd rhai ymatebwyr, megis nifer o'r Mentrau Iaith, yn anghytuno ar y sail y dylai fod yn bosibl rhoi dyletswyddau ar gyrff mewn perthynas â hawliau unigolion fel cyflogeion.


3.107 Mynegodd rhai ymatebwyr bryder am y baich y gellid ei roi ar gwmnïau preifat pe byddent yn dod o dan gyfundrefn Safonau'r Gymraeg. Nododd llawer o ymatebwyr y dylid annog busnesau i gynnig mwy o wasanaethau Cymraeg a magu ewyllys da. Roedd rhai o'r farn y dylid gosod dyletswyddau cyfreithiol oherwydd, yn eu tyb nhw, nad yw annog busnesau yn unig wedi cael effaith ddigonol.

3.108 Roedd dau ymatebydd o'r sector preifat eisiau gwybodaeth bellach am ystyr 'cwsmeriaid' yng nghyd-destun y Safonau. Holodd un ymatebydd y sector preifat p'un a fyddai 'cwsmeriaid' yn cynnwys cwsmeriaid posibl neu unigolion sydd eisiau cwyno wrth y cwmni ond nad ydynt o reidrwydd yn gwsmeriaid (er enghraifft, a fyddai unigolyn yn gwneud cwyn am ymgyrch farchnata cwmni yn 'gwsmer' o fewn diffiniad y Safonau hyd yn oed pe na fyddai'r unigolyn yn derbyn gwasanaeth gan y cwmni dan sylw). Trafododd ddau ymatebydd y gwahaniaeth rhwng cwsmeriaid domestig a

chwsmeriaid masnachol gan gwestiynu p'un a fyddai Safonau'n berthnasol i'r gwasanaethau a gyflenwir ganddynt i gwsmeriaid masnachol.

**Cwestiwn 43 – A ydych chi'n cytuno â'n cynnig mai dim ond fel rhan o becyn ehangach o weithgarwch sy'n hybu'r Gymraeg ac yn cynyddu ymwybyddiaeth ohoni y dylid gosod Safonau ar fusnesau preifat?**

**Ffigur 36: Ymatebion i Gwestiwn 43**





3.109 Gwelwyd barn ranedig ymhlith yr ymatebwyr o gategorïau gwahanol i'r cwestiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a fynegodd farn yn cytuno â'r cynnig.

3.110 O blith yr awdurdodau lleol, roedd pump ohonynt yn cytuno â'r cynnig tra bod tri yn anghytuno a phedwar ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Ym maes iechyd a gofal, cytunodd saith o'r ymatebwyr ac roedd wyth ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Yn achos y cyrff sy'n derbyn arian gan Lywodraeth Cymru i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, ni wnaeth yr un ohonynt anghytuno â'r cynnig. Yn debyg i'r cwestiynau blaenorol, roedd rhai aelodau'r cyhoedd o'r farn na ddylid cyflwyno Safonau i'r sector preifat o gwbl, tra bod rhai eraill a rhai mudiadau o'r farn y dylid defnyddio deddfwriaeth i orfodi busnesau i ddefnyddio'r Gymraeg yn lle eu hannog.

**Cwestiwn 44 – Os rhoddir pwerau i Lywodraeth Cymru i osod Safonau ar unrhyw gorff o fewn cymhwysedd y Cynulliad, a ydych chi o'r farn y dylai Safonau gael eu gosod ar unrhyw gorff neu sector nad yw ar hyn o bryd o fewn cwmpas deddfwriaeth ynghylch y Gymraeg?**

**Ffigur 37: Ymatebion i Gwestiwn 44**




3.111 Roedd barn yr ymatebwyr ar y cwestiwn hwn yn rhanedig ac nid oedd mwyafrif wedi ymateb i'r un ffordd na'r llall. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a fynegodd farn o'r farn y dylid defnyddio'r pwerau arfaethedig i ymestyn y Safonau y tu hwnt i'r cyrff sydd o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth bresennol.

3.112 Mewn rhai ymatebion, trafodwyd y pwysigrwydd o sicrhau gwasanaethau Cymraeg yn y sector preifat fel rhan allweddol o wireddu amcanion strategaeth Cymraeg 2050. Cefnogwyd y cynnig hwn gan 10 o'r 16 awdurdod lleol a ymatebodd ond roedd chwech yn ansicr. Roedd pob un o'r cyrff a ariennir gan Lywodraeth Cymru i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg a ymatebodd y cwestiwn hwn (10) o'r farn y dylid gosod Safonau ar y cyrff dan sylw. O ran yr ymatebwyr o'r sector iechyd a gofal, cytunodd dau â'r cynnig, anghytunodd un ac roedd 11 yn ansicr. Tri chorff o'r sector preifat a ymatebodd i'r cwestiwn hwn. Cytunodd dau â'r cynnig ac roedd un yn ansicr. Ymysg aelodau'r cyhoedd, roedd 20 yn cytuno, 36 yn anghytuno a 10 yn ansicr.

3.113 Yn gyffredinol, roedd y rheini a oedd o'r farn y dylid cyflwyno Safonau'r Gymraeg i'r sector preifat yn credu y dylid eu cyflwyno ar gyfer banciau ac archfarchnadoedd yng Nghymru. Nododd sawl ymateb bwysigrwydd gwasanaethau banciau ac archfarchnadoedd a'r defnydd beunyddiol ohonynt gan y cyhoedd fel y prif rheswm dros greu Safonau iddynt. Gwnaeth y rhai a oedd yn ansicr neu'n gwrthwynebu'r cynnig nodi pryderon am yr effaith andwyol economaidd y gallai Safonau'r Gymraeg ei chael ar gyrff yn y sector preifat, yn ogystal â phryderon am yr effaith y gallai hyn ei chael ar ewyllys da tuag at y Gymraeg.

**Cwestiwn 45 – A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar Ran 4 y Papur Gwyn?**

3.114 Ymysg yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, nododd nifer o gyrff sy'n derbyn arian gan Lywodraeth Cymru i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ei bod yn bwysig bod y Bil arfaethedig yn sicrhau y gwelir gwariant ar wasanaethau dwyieithog ac, yn y cyd-destun hwnnw, nad yw'n wariant ar wasanaeth Saesneg gyda chyfieithu fel ychwanegiad. Roedd un ymatebydd o'r farn y dylid cyflwyno'r Safonau i'r sector preifat yn wirfoddol yn gyntaf i sicrhau cydweithrediad tra bod eraill o'r farn y dylid cyflwyno Safonau i'r sector preifat i gyd. Nododd un ymateb ei fod yn afresymegol i gyrff megis banciau ac archfarchnadoedd fod yn ddarostyngedig i ddisgwyliadau gwahanol ynghylch eu darpariaeth o wasanaethau Cymraeg o ystyried eu bod yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Yn groes i hyn, roedd sawl aelod o'r cyhoedd a ddarparodd ymateb i'r cwestiwn hwn yn anghytuno ag ymestyn y Safonau i'r sector preifat.

## Rhan 5: Asesu effaith ein cynigion

**Cwestiwn 46 – Rydym wedi asesu effaith ein cynigion ar gydraddoldeb, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, a'r Gymraeg. A oes gennych chi sylwadau ar unrhyw un o'r asesiadau hyn?**

3.115 Penderfynodd mwyafrif yr ymatebwyr i beidio â darparu ymateb i'r cwestiwn hwn. Dim ond mewn rhai ymatebion yr oedd ymatebwyr wedi nodi i ba asesiad yn benodol yr oedd eu sylwadau nhw'n berthnasol. Rydym wedi nodi nodi i ba asesiadau oedd y sylwadau'n berthnasol, lle'n bosibl, isod.

3.116 Ymysg yr ymatebion a dderbyniwyd, roedd pedwar yn cytuno â'r asesiadau yn gyffredinol. Roedd tri ymatebydd o'r farn y dylid ystyried plethu'r gofynion eraill at ei gilydd yn yr asesiadau, megis dyletswyddau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, strategaeth Mwy na geiriau....[5], Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, yn ogystal â pholisïau a darpariaethau deddfwriaethol eraill.

3.117 O ystyried effeithiau'r cynigion, nododd rhai ymatebwyr y dylid ceisio cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a geir i blant a phobl ifanc trwy sicrhau cynigion sy'n hyrwyddo gwerth y Gymraeg iddynt o ran sgil cyflogaeth yn ogystal â sicrhau cyfleoedd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Yng nghyd-destun addysg, roedd rhai aelodau'r cyhoedd nad oeddent yn cytuno'n gyffredinol â'r cynigion yn nodi effeithiau negyddol ar blant yr oeddent yn ystyried a fyddai'n deillio o ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.

3.118 Roedd rhai ymatebwyr wedi cydnabod a nodi'r effaith bosibl a geir ar bobl sy'n defnyddio sgrin-ddarllenwyr a amlygwyd yn yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb o ran yr anawsterau a wynebir gan bobl sy'n defnyddio sgrin-ddarllenwyr wrth iddynt dderbyn gwybodaeth yn Gymraeg.

3.119 Nododd rhai ymatebwyr eu bod yn dymuno gweld rhagor o dystiolaeth i gefnogi'r effeithiau cadarnhaol a nodwyd yn yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb.

3.120 Cafwyd rhai ymatebion a oedd yn ystyried y byddai rhai o'r cynigion yn arwain at effeithiau oedd heb eu cofnodi yn yr asesiadau. Yn bennaf, trafododd rhai y dylid ystyried effaith y cynigion ar bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg. Wrth drafod yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb, roedd un ymatebydd o'r farn y byddai'r cynigion hyn yn arwain at fwy o swyddi lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol. Yn ogystal, roedd yr ymatebydd o'r farn y dylid ystyried effeithiau'r cynigion ar gymunedau a phobl sydd â nodweddion gwarchodedig sy'n llai tebygol yn ystadegol o fod â sgiliau Cymraeg. Roedd un ymatebydd arall o'r farn y dylid ystyried effaith y cynigion yn gyffredinol ar bobl nad y Gymraeg na'r Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

3.121 Roedd ymatebion un aelod o'r cyhoedd ac un mudiad yn ystyried y byddai'r cynnig i ddiwygio'r broses gwyno pan fo corff yn methu â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn arwain at effeithiau negyddol ar grwpiau bregus. Ategodd y mudiad eu bod yn ystyried y byddai cynigion eraill yn ymwneud â phrosesau cwyno, yn ogystal â swyddogaethau rheoleiddio a hybu, yn effeithio'n negyddol ar grwpiau bregus.

[5] Mwy na geiriau…. Fframwaith strategol olynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol (http://gov.wales/docs/dhss/publications/160317morethanjustwordscy.pdf)

3.122 Cynigodd rhai ymatebwyr y dylid asesu effeithiau eraill y cynigion megis yr effeithiau ar:

- Mynediad at gyfiawnder;
- Busnesau bach;
- Gwariant i weithredu'r cynigion a'r arbedion/gwariant a ddisgwylir (Asesiad Effaith Rheoleiddiol).

**Cwestiwn 47 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn ein Papur Gwyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar:**

**i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**
**ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Pa effeithiau fyddai, yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?**

3.123 O'r ymatebwyr a ddarparodd ymateb i'r cwestiwn hwn, cytunodd 25 ohonynt y byddai cynigion y Papur Gwyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai effeithiau cadarnhaol yn deillio o sicrhau mwy o eglurder yn y gyfundrefn Safonau a sicrhau hawliau i bobl ddefnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau. Yn groes i hyn, roedd chwech ymatebydd o'r farn y byddai'r cynigion yn cael effeithiau negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Ymysg y chwech ymatebydd hyn (a oedd yn cynnwys aelodau'r cyhoedd ac un mudiad) roedd rhai o'r farn y byddai'r effeithiau hyn yn ganlyniad i'r diwygiadau a gynigwyd yn y Papur Gwyn. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd y cynigion yn eu hunain yn uniongyrchol berthnasol i'r defnydd o'r Gymraeg.

3.124 O edrych ar effaith y cynigion ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, roedd tri ymatebydd o'r farn y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol. Nododd un ymatebydd bryder ynghylch y posibilrwydd y gallai'r Gymraeg barhau i gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a nododd un arall bod anawsterau recriwtio siaradwyr Cymraeg yn ei gwneud yn anodd cydymffurfio â'r egwyddor hon.

3.125 Ymysg yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, cafwyd sylwadau a chynigion cyffredinol gan yr ymatebwyr ar sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol y cynnig. Er enghraifft, trafododd rhai bwysigrwydd egluro'r hyn a gynigir trwy'r Safonau i sicrhau bod staff a'r cyhoedd yn gwybod yr hyn y gellir ei ddisgwyl gan gyrff sy'n ddarostyngedig i'r Safonau.

3.126 Lleiafrif o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn a oedd yn erbyn y cynigion yn gyffredinol.

**Cwestiwn 48 – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid yr opsiynau arfaethedig:**

**i) fel eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**
**ii) fel nad ydynt yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

3.127 Roedd y rhan fwyaf o'r cynigion a dderbyniwyd yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ymwneud â chyfathrebu. Derbyniwyd cynigion gan rai yn ymwneud â sicrhau bod

cyfathrebu clir ynghylch yr hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl gan gyrff dan Safonau'r Gymraeg. Yn ogystal, crybwyllodd rhai ymatebwyr waith cyfathrebu y dylid ystyried ei gyflawni er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymysg pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg, marchnata'r Gymraeg, yn ogystal â sicrhau cyfathrebu clir ar y camau nesaf wrth greu Bil y Gymraeg. Nododd nifer o'r ymatebwyr o'r sector iechyd a ymatebodd i'r cwestiwn hwn y byddent yn cefnogi agwedd sy'n croesawu'r Gymraeg a diwylliant Cymreig yn ogystal â gwerthu manteision y Gymraeg i annog pobl i ddysgu'r iaith. Nododd ymatebwyr eraill bwyntiau eraill yr oeddynt yn credu y dylid eu hystyried megis y Gymraeg yn y cyfryngau, Cymraeg mewn addysg bellach, cefnogaeth i gyrff gwrdd â gofynion Safonau'r Gymraeg, a chreu hawliau cyffredinol i'r Gymraeg ar wyneb y ddeddfwriaeth ac ehangu'r Safonau i'r sector preifat.

3.128 Cafwyd sylwadau gan leiafrif o'r ymatebwyr a nododd yn gyffredinol eu bod yn anghytuno â rhai o gynigion y Papur Gwyn.

**Cwestiwn 49 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.**

3.129 Roedd nifer o'r pwyntiau yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ategu'r hyn sydd wedi'u nodi mewn mannau eraill o fewn yr adroddiad hwn megis: y dylid ystyried hawliau cyffredinol yn y Bil newydd, gwaith posibl gall y Comisiwn arfaethedig ei gyflawni, a phryderon am gostau cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

3.130 Yn ogystal, cafwyd cynigion a sylwadau newydd gan rai ymatebwyr. Er enghraifft, cynigodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y dylid ystyried gwneud y Comisiwn arfaethedig yn ddarostyngedig i ddyletswydd llesiant adran 3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac ystyried dyletswydd i sicrhau effeithlonrwydd ac economi wrth i'r Comisiwn arfer ei swyddogaethau. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid ystyried ieithwedd y ddeddfwriaeth.

3.131 O'r pedwar tribiwnlys a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, nodwyd ym mhob ymateb y dylid ystyried p'un a ddylai'r Safonau fod yn berthnasol i ymwneud y cyrff â'r cyhoedd yn unig, yn hytrach nag ymwneud y cyrff â chyrff eraill.

3.132 Cafwyd sylwadau gan rai yn ymwneud â'r ffaith bod cwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u seilio ar y cynigion a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ac y gallai hyn gymryd yn ganiataol bod ymatebwyr yn cytuno â'r opsiynau hyn.

# 4. Casgliad a'r camau nesaf

4.1 Mae Llywodraeth Cymru'n ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad am roi o'u hamser i ymateb. Byddwn yn defnyddio'r ymatebion i helpu i lywio ein polisi. Pan fyddwn wedi terfynu ein cynigion, byddwn yn casglu tystiolaeth o'r effeithiau rheoleiddiol i'n cynorthwyo i baratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Caiff yr asesiad ei osod gerbron y Cynulliad ar yr un pryd a'r Bil y Gymraeg arfaethedig.

# Atodiad 1: Crynodeb o'r ymatebion i'r grŵp ffocws a gynhaliwyd gyda phlant a phobl ifanc

Cynhaliwyd dwy sesiwn ar wahân i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yng Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn. Trefnwyd un sesiwn ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7 Ysgol y Creuddyn, ac un sesiwn ar gyfer disgyblion Blwyddyn 12. Ymhelaethir ar y themâu a gododd yn y sesiynau isod:

## Sesiwn 1: Disgyblion Blwyddyn 7

Cynhaliwyd y sesiwn hon ar ffurf cyflwyniad byr ar weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Esboniwyd prif gynigion y Papur Gwyn i'r cyfranogwyr gan ymdrin yn bennaf â'r cynnig i sefydlu Comisiwn y Gymraeg i hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn ogystal â monitro a gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â Safonau'r Gymraeg. Gofynnwyd i'r plant nodi'r hyn yr oeddent yn meddwl y dylai'r Comisiwn arfaethedig ei wneud i hybu defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc a chyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Dyma brif themâu'r cynigion a gynigiwyd:

- dylid sicrhau darpariaeth Gymraeg mewn technoleg ac ar y cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys ar YouTube, Facebook, Twitter, Snapchat, Instagram, ar blatfformau i werthu cerddoriaeth (megis iTunes a PlayStore), ar y we, ac apiau a gemau;
- roedd nifer o gyfranogwyr yn meddwl bod cynyddu argaeledd cyfryngau Cymraeg yn bwysig megis sianeli ar y teledu, cerddoriaeth Gymraeg, ffilmiau, a llyfrau;
- sicrhau bod y Gymraeg yn weledol yng Nghymru ac yn rhyngwladol (yn ogystal, trafodwyd cefnogi cwmnïau sy'n cynhyrchu nwyddau, megis dillad sydd â'r Gymraeg arnynt);
- roedd rhai yn meddwl ei bod yn bwysig bod rheolwyr a chwaraewyr ar draws y byd chwaraeon, megis pêl droed, yn gosod esiampl trwy siarad Cymraeg neu drwy ddangos eu bod yn ceisio siarad Cymraeg;
- nododd rai bod angen cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn siopau a'r byd chwaraeon;
- roedd rhai'n meddwl y dylid cefnogi busnesau i ddefnyddio'r Gymraeg;
- roedd rhai'n credu ei fod yn bwysig ehangu addysg Gymraeg.

## Sesiwn 2: Disgyblion Blwyddyn 12

Dechreuwyd y sesiwn hon drwy amlinellu cynigion Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Esboniwyd prif gynigion y Papur Gwyn i'r disgyblion a gofynnwyd cwestiynau penodol iddynt. Cymerodd 12 o ddisgyblion ran ac nid oedd yn orfodol iddynt roi ateb i unrhyw gwestiwn. Ceir crynodeb o'r ymatebion a gafwyd gan y cyfranogwyr o dan benawdau'r cwestiynau unigol isod:

**Cwestiwn 1 – Ydy defnyddio’r Gymraeg yn bwysig i chi?**

Cytunodd bawb a gyfrannodd i’r cwestiwn fod y Gymraeg yn bwysig iddynt. Yn ogystal, nododd rai eu bod yn defnyddio’r Gymraeg mewn rhai sefyllfaoedd y tu allan i’r ysgol a bod rhuglder yn y Gymraeg yn bwysig i’w cynorthwyo gyda’u gwaith cartref. Dywedodd rhai eu bod yn defnyddio’r Saesneg mewn chwaraeon gan eu bod yn derbyn eu hyfforddiant yn Saesneg.

**Cwestiwn 2 – A ydych chi’n meddwl bod gennych chi hawliau i ddefnyddio’r Gymraeg yn y sefyllfaoedd canlynol?**

**Tabl 2**

| | **Ydw** | **Nac ydw** | **Ansicr** |
|---|---|---|---|
| Hawl i ofyn am lety Cymraeg yn y brifysgol.* | 12 | 0 | 0 |
| Hawl i gyflwyno gwaith cwrs yn Gymraeg yn y coleg.* | 0 | 12 | 0 |
| Hawl i gael gwasanaeth Cymraeg ar y ffôn gan ganolfan hamdden yr awdurdod lleol. | 5 | 0 | 7 |
| Hawl i ddefnyddio’r Gymraeg ar y til hunanwasanaeth yn yr archfarchnad. | 12 | 0 | 0 |
| Hawl i anfon llythyr neu e-bost yn Gymraeg at yr awdurdod lleol. | 12 | 0 | 0 |
| Hawl i ymdrin â’r banc yn Gymraeg. | 5 | 2 | 5 |
| Hawl i weld y Gymraeg mewn arddangosfa gyhoeddus. | 9 | 0 | 3 |
| Hawl i dderbyn tystysgrif nofio yn Gymraeg gan yr awdurdod lleol. | 1 | 6 | 5 |
| Hawl i ddefnyddio’r Gymraeg wrth siopa ar-lein. | 0 | 11 | 1 |

Ar ôl gofyn y cwestiynau isod, esboniwyd wrth y cyfranogwyr bod hawliau ganddynt eisoes (neu yn y broses o gael eu sefydlu iddynt) i bob un peth yn y rhestr heblaw am:

- hawl i ymdrin â’r banc yn Gymraeg;
- hawl i ddefnyddio’r Gymraeg wrth siopa ar-lein; ac
- hawl i ddefnyddio’r Gymraeg ar y til hunanwasanaeth yn yr archfarchnad.

**Cwestiwn 3 – O ystyried canlyniadau cwestiwn 2, ydych chi’n meddwl dylai bod Llywodraeth Cymru’n gallu rhoi’r hawliau hyn i chi wneud y pethau hyn yn Gymraeg?**

Roedd nifer o gyfranogwyr yn gefnogol i’r cynnig bod Lywodraeth Cymru’n gallu gosod dyletswyddau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg ar fusnesau. Dywedodd rhai y gallai gosod y dyletswyddau hyn helpu dysgwyr i ddysgu Cymraeg, cynyddu gwelededd y Gymraeg a helpu i osgoi gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Cynigodd rhai y dylid defnyddio tudalennau sblash ar wefannau busnesau a/neu sicrhau mai’r Gymraeg yw’r iaith gyntaf a welir ar wefannau siopau. Roedd rhai o’r farn pe byddai’n rhaid dewis opsiwn i ddefnyddio’r wefan yn Gymraeg, na fyddant yn debygol o wneud hynny. Yn ogystal, roedd rhai yn meddwl y dylai’r opsiwn Gymraeg fod ar gael gan fod y Gymraeg yn iaith a ddefnyddir yng Nghymru a bod cwmnïau gwledydd eraill yn cynnig opsiynau i bobl ddefnyddio’u hieithoedd nhw.

* Gofynnwyd y cwestiwn hwn i’r disgyblion gan nodi nad yw’r hawliau yma’n weithredol nes y dyddiad gosod sydd wedi’i nodi yn Hysbysiadau Cydymffurfio’r cyrff perthnasol.

**Cwestiwn 4 – Mae Llywodraeth Cymru eisiau sefydlu corff newydd i wneud gwaith i helpu mwy o bobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg. Beth ydych chi'n meddwl y dylai'r corff hwn ei wneud i gyflawni hyn?**

Dyma brif themâu'r cynigion a gafwyd:

- Dylai'r corff gefnogi pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddysgu'r Gymraeg;
- Dylid troi ysgolion Saesneg i ysgolion dwyieithog ac hyrwyddo manteision addysg Gymraeg i ddenu disgyblion ysgolion Saesneg i ysgolion Cymraeg;
- Dylid cefnogi busnesau i ddefnyddio Cymraeg ar labeli eu cynnyrch ac mewn bwydlenni bwytai;
- Dylid cefnogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith;
- Dylid sicrhau rhagor o gyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn digwyddiadau (megis Maes B) a chlybiau ieuenctid.

## Atodiad 2: Crynodeb o'r ymatebion i'r grŵp ffocws a gynhaliwyd gyda phobl ag anableddau dysgu

Trefnwyd y sesiwn hon ar y cyd ag elusen Pobol yn Gyntaf Caerfyrddin ar ffurf cyflwyniad a sesiwn holi ac ateb gyda dau grŵp ar wahân. Cynhaliwyd un grŵp yn Gymraeg, a'r llall yn Saesneg. Roedd tri unigolyn yn rhan o'r grŵp Cymraeg (gan gynnwys hwylusydd) a dau yn rhan o'r grŵp Saesneg wrth ymateb i'r cwestiynau yn nhabl 3 isod, ac ymunodd trydydd aelod wrth ateb cwestiynau 1-3 isod.

Holwyd cwestiynau i fynychwyr y sesiwn i weld p'un a oeddynt yn ymwybodol o'u hawliau cyfredol i dderbyn gwasanaethau Cymraeg. Rhoddwyd sefyllfaoedd enghreifftiol i aelodau'r grŵp ffocws a holi a oeddent yn meddwl bod hawl ganddynt i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfa honno (hynny yw, a oedd rheidrwydd cyfreithiol ar y person yr oeddent yn ceisio gwasanaeth Cymraeg ganddynt i ddarparu'r gwasanaeth dan sylw yn Gymraeg). Nid oedd rheidrwydd i'r bobl a gymerodd ran ddarparu ateb i bob cwestiwn.

**Tabl 3**

| **A ydych chi'n meddwl bod gennych chi hawliau i............** | **Ydw** | **Nac ydw** | **Ansicr** |
|---|---|---|---|
| siarad â'r Cyngor ar y ffôn yn Gymraeg. | 1 | | 3 |
| dderbyn adroddiad gan y Banc yn Gymraeg. | | 2 | 2 |
| lenwi ffurflen gan yr Heddlu yn Gymraeg. | 1 | 1 | 3 |
| ddefnyddio'r Gymraeg ar y til mewn archfarchnad. | | 4 | 1 |
| ddarllen cynnwys gwefan Llywodraeth Cymru yn Gymraeg. | | 2 | 3 |

Dangosodd y data fod mwyafrif yr ymatebwyr yn ansicr p'un a oedd ganddynt hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg a'i peidio, neu hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd a roddwyd.

Ar ôl trafod hawliau cyfredol pobl i wasanaethau Cymraeg, gofynnwyd cyfres o dri chwestiwn i'r grwpiau gyda chyfle iddynt rannu sylwadau cyffredinol ar y cwestiwn dan sylw.

**Cwestiwn 1 – Ydy'r Gymraeg yn bwysig?**

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn bod y Gymraeg yn bwysig. Dyma'r sylwadau a gofnodwyd:

- bod y Gymraeg yn rhywbeth i fod yn falch ohono;
- bod siarad Cymraeg yn helpu pobl i deimlo'n agos at siaradwr Cymraeg eraill;
- bod siarad Cymraeg yn arwydd o barch at siaradwyr Cymraeg eraill;
- bod y Gymraeg yn rhan o Gymru;
- bod y Gymraeg yn rhan naturiol o'r gymuned;
- bod y Gymraeg yn rhoi ymdeimlad o berthyn i gymuned ac ardal;
- bod pobl yn teimlo'n dda wrth siarad Cymraeg;
- bod siaradwyr Cymraeg yn debyg i deulu mawr;
- bod y Gymraeg yn rhan o ddiwylliant;
- bod angen siarad Cymraeg i helpu pobl eraill i ddysgu Cymraeg;

- bod y mynychwyr yn defnyddio’r Gymraeg gyda’u teulu a’u ffrindiau;
- bod y Gymraeg yn iaith y mae pobl yn gallu ei defnyddio’n lleol;
- ei bod yn bwysig defnyddio’r Gymraeg pan fo siaradwyr Cymraeg gyda’i gilydd.

Nododd un ymatebydd ei fod yn credu nad oedd y Gymraeg yn bwysig oherwydd bod rhai pobl ddim yn deall Cymraeg.

**Cwestiwn 2 – A ddylai Llywodraeth Cymru feddu ar y pŵer i roi dyletswyddau’n ymwneud â’r Gymraeg ar unrhyw gorff o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru?**

Dyma’r sylwadau a gofnodwyd:

- Dylid ystyried cwotâu o staff sydd eu hangen ar sefydliadau gyda sgiliau Cymraeg (crybwyllwyd 25-30%);
- Roedd rhai yn meddwl y dylid ystyried rhoi swyddi i bobl os oes sgiliau Cymraeg ganddynt, tra bod eraill wedi codi pryder am wahaniaethu posib;
- Roedd pryder am yr effeithiau posibl ar bobl nad ydynt yn siarad Saesneg na Chymraeg pe byddant yn gorfod dysgu Cymraeg a darparu gwasanaethau Cymraeg;
- Roedd pryder am bobl nad ydynt yn deall Cymraeg sy’n ystyried bod pobl sy’n siarad Cymraeg yn siarad amdanynt;
- Trafododd rhai y costau posibl y byddai ynghlwm â gosod dyletswyddau’n ymwneud â’r Gymraeg ar fusnesau;
- Roedd rhai yn pryderu y gallai’r cynnig olygu bod busnesau bach yn cau;
- Roedd rhai o’r farn y dylai busnesau mawr fod o dan ddyletswyddau’n ymwneud â’r Gymraeg, tra bod eraill o’r farn y dylai hyn fod yn seiliedig ar faint y cwmni. Yn ogystal, roedd rhai o’r farn y dylai pob busnes ym mhob man yng Nghymru fod yn ddarostyngedig i ddyletswyddau. Ymysg yr ymatebwyr hyn, roedd rhai eisiau gosod dyletswyddau ar bob archfarchnad ac eraill eisiau eu gosod ar dafarndai yn seiliedig ar faint eu gweithlu.

**Cwestiwn 3 – A ddylid sefydlu corff i helpu mwy o bobl i ddefnyddio Cymraeg (hynny yw: Comisiwn y Gymraeg)? Os felly, pa fath o waith ydych chi’n meddwl y gallai’r corff newydd ei wneud i helpu mwy o bobl i ddefnyddio’r Gymraeg?**

Roedd pawb yn meddwl ei fod yn bwysig sefydlu corff fyddai’n helpu mwy o bobl i ddefnyddio’r Gymraeg.

Dyma’r cynigion a gafwyd ar gyfer prosiectau posibl i’r corff newydd:

- cynnal prosiectau i helpu pobl i ddefnyddio Cymraeg symlach a chynyddu dealltwriaeth o eiriau Cymraeg;
- dysgu iaith syml a helpu pobl i deimlo’n hyderus i ddefnyddio’r Gymraeg;
- helpu pobl i ddysgu Cymraeg. Cynigiwyd y dylai weithio gyda chymunedau, cynnig grantiau bychain i grwpiau ac hefyd ystyried dysgu anffurfiol;
- hybu’r Gymraeg i fusnesau a darparu cortynnau gwddf (lanyards) a bathodynnau i helpu siaradwyr Cymraeg i adnabod aelodau staff sy’n siarad Cymraeg;
- hybu’r defnydd o’r Gymraeg mewn chwaraeon;
- hybu’r Gymraeg trwy ganolfannau iaith;
- mynd i’r afael â phryderon posibl pobl ifanc ynghylch defnyddio’u Cymraeg y tu allan i’r ystafell ddosbarth trwy gynnal clybiau ar ôl ysgol/clybiau ieuenctid yn Gymraeg;
- sicrhau bod y Gymraeg yn weledol;

- helpu pobl i nodi eu dewis iaith ar ffurflenni;
- troi ysgolion dwyieithog yn ysgolion Cymraeg;
- cynyddu faint o Gymraeg a ddysgir mewn ysgolion Saesneg;
- defnyddio rhagor ar dechnoleg i helpu pobl i ddysgu Cymraeg ar declynnau megis ffonau symudol;
- helpu pobl i ddefnyddio technolegau Cymraeg (megis offer gwirio sillafu a ffonau symudol Cymraeg);
- cynyddu nifer y rhaglenni Cymraeg sydd ar gael (er enghraifft: operâu sebon);
- denu doctoriaid sy'n siarad Cymraeg nôl i Gymru;
- helpu cyrff i gyfieithu arwyddion;
- cynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yn ninasoedd Caerdydd ac Abertawe;
- helpu pobl o dramor i ddysgu Cymraeg.